



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 22AIN HYDREF, 2015

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH.

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

(Dosbarthwyd 15/10/15)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Alan Jones Evans
Sian Gwenllian
R. Hefin Williams

Elwyn Edwards
Gweno Glyn
Charles Wyn Jones
John Wyn Williams

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Thomas G. Ellis
Eirwyn Williams

Eric M. Jones
Elfed Williams

Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

[Sedd Wag]

Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod Arall a Wahoddir

Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn – Aelod Cabinet – Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

1 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

- (a) 18 Mehefin, 2015 (*ynghlwm*)
- (b) 8 Gorffennaf, 2015 (cyfarfod arbennig) (*ynghlwm*)

5. ADRODDIAD YMCHWILIAD IAITH - Y GYMRAEG MEWN 8 - 37 CYFARFODYDD

- (a) Cyflwyno adroddiad yr Ymchwiliad (*ynghlwm*).
- (b) Ystyried maes ar gyfer yr ymchwiliad iaith nesaf.

6. ADRODDIAD YR AELOD CABINET - Y GYMRAEG

Cyflwyno adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg.

7. DIWEDDARIAD AR SAFONAU'R GYMRAEG

38 - 70

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith (*ynghlwm*).

8. YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I'R ADRODDIAD 71 - 75 BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith (*ynghlwm*).

9. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU - ADDYSG GYMRAEG

76 - 254

Cyflwyno adroddiad terfynol yr ymchwiliad (*ynghlwm*).

10. CWYNION IAITH

255

Ystyried adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith (*ynghlwm*).

PWYLLGOR IAITH, 18.06.15

Yn bresennol: Y Cyngorydd Gweno Glyn (Cadeirydd);
Y Cyngorydd Eirwyn Williams (Is-gadeirydd).

Y Cyngorwyr: Craig ab Iago, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Charles Wyn Jones, Eric Merfyn Jones a Hefin Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

Swyddogion: Iwan Evans (Swyddog Monitro), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni), Debbie Williams Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democraidaidd (ac Iaith)), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (Gweithle)) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian ac Elfed Williams.

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Gweno Glyn yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2015/16.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Eirwyn Williams yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2015/16.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. MATER BRYD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at fater a godwyd gan aelod o'r pwyllgor hwn yn y Pwyllgor Cynllunio diwethaf, sef y dylid dosbarthu asesiadau ardrawiad ieithyddol gyda rhaglenni'r Pwyllgor Cynllunio.

Esboniodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni y cefndir i hyn gan nodi:-

- I Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio egluro nad oedd y mater o ba bapurau sydd i'w cynnwys ai peidio gerbron y pwyllgor hwnnw ac y cytunwyd bod modd trafod y broses ddosbarthu yn y pwyllgor craffu priodol neu'r Pwyllgor Iaith.
- Bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar fin cychwyn ymchwiliad craffu i'r drefn gynllunio ac y byddai'r mater hwn yn derbyn sylw yng Nghyfarfod Paratoi'r pwyllgor ym mis Gorffennaf.
- Pe na fyddai'r mater yn cael ei gyfarch gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y gallai'r pwyllgor hwn edrych arno.

PENDERFYNWYD nodi'r mater a gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau adael i'r pwyllgor hwn wybod os ydynt yn bwriadu cyfarch y mater hwn ai peidio.

5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ebrill, 2015 fel rhai cywir.

6. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys mewnbwn yr adrannau i'r Cynllun Strategol, trafodaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, llwyddiant y Siarter Iaith, cychwyn y broses o ymgynghori gyda sefydliadau ar yr Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau Iaith a llwyddiant y cais am gyllid cyfalaf ar gyfer Canolfan Iaith Bangor.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

7. SAFONAU'R GYMRAEG – YMGYNGHORI AR YR HYSBYSIADAU CYDYMFFURFIO

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ac iaith) yn gofyn i'r aelodau drafod a chytuno ar ddull o sicrhau mewnbwn y Pwyllgor Iaith ei hun i'r ymgynghoriad ar y Safonau Iaith – Hysbysiodau Cydymffurfio.

PENDERFYNWYD galw cyfarfod arbennig o'r pwyllgor hwn i drafod y mater ar ddyddiad sy'n gyfleus i'r Aelod Cabinet - Y Gymraeg.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH 2014/15

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ac iaith) yn gofyn i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Iaith 2014/15 i'w anfon at Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 30 Mehefin, 2015.

Dosbarthwyd tabl diwygiedig yn manylu ar sgiliau ieithyddol staff yr Adran Rheoleiddio.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:-

- Bod lefel sgiliau ieithyddol y staff yn galonogol iawn ar y cyfan ond bod rhaid gochel nad yw'r toriadau yn arwain at ddirywiad yn y ffigurau hyn.
- Mai'r hyn sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt cydymffurfiaeth iaith yw'r cytundebau trydydd parti yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol derbyn adroddiad ymhellach ymlaen yn y flwyddyn gan y Grŵp Tasg a sefydlwyd mewn ymateb i ofynion 'Mwy Na Geiriau'.
- Bod nifer y wardeiniaid traffig di-Gymraeg yn yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn uchel. Pwysleisiwyd bod angen annog rheolwyr i ddwyn pwysau ar eu staff i fanteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael a'i bod yn bwysig bod staff di-Gymraeg yn cael pob cefnogaeth i gyrraedd y safon angenrheidiol. Awgrymwyd y gellid gofyn i'r Tîm Dysgu a Datblygu roi cyflwyniad i'r Pwyllgor Iaith nesaf ar faterion megis sut maent yn adnabod pobl sydd angen hyfforddiant, faint o orfodaeth y gellir ei roi arnynt, sut maent yn datblygu'r staff, ayb.
- Bod angen mynd yn ôl at yr adrannau i ofyn am eglurder ar rai o'r ffigurau, gan hefyd edrych y tu ôl i'r data a gyflwynwyd er mwyn gweld oes yna raglen waith i'r pwyllgor yn codi ohono.

PENDERFYNWYD

- (a) Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w anfon at Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 30 Mehefin, 2015.
- (b) Gofyn am adroddiad i'r pwyllgor hwn ymhellach ymlaen yn y flwyddyn gan y Grŵp Tasg a sefydlwyd mewn ymateb i ofynion 'Mwy Na Geiriau'.
- (c) Gofyn i'r Tîm Dysgu a Datblygu roi cyflwyniad i'r cyfarfod nesaf ar y broses o ddatblygu staff di-Gymraeg.

9. GWAITH YMCHWIL TRYWYDD I DDEFNYDD ANFFURFIOL O'R GYMRAEG YN YSGOLION UWCHRADD Y SIR

Cyflwynwyd Crynodeb Gweithredol Trywydd a rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (ac iaith) gyflwyniad ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil.

Ymhelaethodd ar ofynion y briff, maint y sampl / y fethodoleg a'r prif ddarganfyddiadau, gan fanylu ar y meysydd unigol fesul themâu ac argymhellion, sef:-

- Diffinio natur ieithyddol yr ysgolion
- Y modd y mae ysgolion yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
- Defnydd iaith a'r cwricwlwm
- Defnydd iaith disgyblion y tu hwnt i'r dosbarth
- Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y disgyblion
- Agweddau tuag at y Gymraeg
- Y Gymraeg tu hwnt i'r ysgol

Rhoddodd drosolwg o ganfyddiadau'r ymchwil a'r argymhellion yn ymateb i'r canfyddiadau hynny gan amlinellu'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud dros y flwyddyn nesaf mewn ymateb i'r argymhellion o safbwynt:-

- Y Prosiect Cefnogi Arferion Iaith
- Prosiect Hunaniaith
- Cynllun Strategol 2015/16

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:-

- Bod y gwaith da sy'n cael ei wneud yn yr ysgolion cynradd yn diflannu wrth i'r plant symud i fyny i'r uwchradd, hyd yn oed yng nghadarnleoedd y Gymraeg.
- Ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn rhoi arweiniad yn hyn o beth a byddai'n ddymunol gweld ymateb yr Adran Addysg i adroddiad Trywydd.
- Bod angen i blant a phobl ifanc weld bod dwyieithrwydd yn cynnig gwell cyfleoedd iddynt a bod angen i hynny gael ei yrru gan y sir a'r Adran Addysg.
- Na ddylai'r aelodau fodloni eu hunain fod popeth yn ei le.
- Yn ddelfrydol, dylai plant fynd i'r canolfannau iaith cyn dechrau ar eu cyfnod yn yr ysgolion lleol fel nad ydynt yn cael eu labelu o'r cychwyn fel 'di-Gymraeg', ond cydnabyddir nad yw hynny'n bosib' bob tro gan fod rhaglen y canolfannau yn rhedeg fesul tymor.
- Ei bod yn bwysig bod hyfforddwyr chwaraeon ar ôl ysgol yn defnyddio'r iaith Gymraeg ac y byddai'n fuddiol edrych i mewn i'r syniad o enwebu Pencampwr Hyfforddwyr Cymraeg o fewn y Cyngor.
- Y bu'n syniad da comisiynu cwmni o'r tu allan i'r ardal i gynnal yr arolwg gan fod modd iddynt edrych ar y sefyllfa'n fwy gwrthrychol.
- Bod ethos ysgol yn dibynnu ar y pennaeth a'r uwch dim rheoli, ac os nad ydynt yn gweld gwerth yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, mae'n mynd i fod yn dalcen caled.

- Bod rhaid i'r Cyngor weithredu lle mae ganddo ddylanwad, ac er bod yr Adran Addysg yn ceisio gwthio hyn yn ei flaen, 'roedd sicrhau llwyddiant o fewn cyfnod byr yn mynd i fod yn fwy o her yn y sector uwchradd.

Diolchwyd i'r Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd (ac Iaith) am y cyflwyniad.

10. PENODIADAU PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn adrodd ar y drefn o benodi i'r Pwyllgor Safonau yn sgil y pryder a fynegwyd yn y cyfarfod diwethaf bod y Cyngor wedi penodi dau aelod annibynnol di-Gymraeg ar y pwyllgor.

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach:-

- Bod lefel yr ymateb a gafwyd i'r hysbyseb yn isel ac mai 1 yn unig o'r 7 ymgeisydd a gafodd eu cyfwrdd oedd yn rhugl yn y Gymraeg.
- Bod y gwaith yn seiliedig ar y meini prawf a sefydlwyd gan y Cyngor llawn yn 2012 a bod yr unig arweiniad cenedlaethol sydd yn bodoli ar y mater mewn drafft ac yn nodi bod rhaid cael 1 aelod Cymraeg ar y Pwyllgor Safonau.
- Na ellid mynnu bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd oherwydd natur a thrawsdoriad y pwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Y byddai gofyniad Cymraeg yn hanfodol yn golygu bod yna feini prawf gwahanol ar gyfer yr aelodau etholedig a'r aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.
- Nad oedd cydbwysedd presennol y Pwyllgor Safonau (h.y. 5 aelod di-gymraeg a 4 aelod Cymraeg) yn adlewyrchu cydbwysedd ieithyddol y sir.
- Ei bod yn siom bod cyn lleied o siaradwyr Cymraeg wedi ymgeisio oherwydd bod hynny'n clymu dwylo'r Panel Penodi a bod angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaeth, e.e. drwy hysbysebu'r cyfle yn y papurau bro.
- Y gellid hysbysu aelodau'r Cyngor pan fo'r cyfle'n codi fel bod modd iddynt dynnu sylw siaradwyr Cymraeg o fewn eu wardiau a allai fod â diddordeb mewn ymgeisio am y swydd.

PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth a phwysleisio pwysigrwydd gweithio i geisio sicrhau bod aelodaeth y pwyllgor yn adlewyrchu natur cymunedau'r sir.

11. CWYNIION IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (Gweithle) yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law.

Nododd aelod fod y Gymdeithas Hawliau Perfformio wedi gwrthod siec a ysgrifennwyd yn Gymraeg ganddo ac awgrymwyd bod yr aelod yn anfon y manylion llawn i'r swyddogion.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.45pm.

PWYLLGOR IAITH ARBENNIG, 08.07.15

Yn bresennol: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Is-gadeirydd yn y gadair).

Y Cyngorwyr: Tom Ellis, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Elfed Williams a Hefin Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

Swyddogion: Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni), Debbie Williams Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaidd (ac Iaith)), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (Gweithle)) Garem Jackson (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Charles Jones, Eric Merfyn Jones a Sion Jones.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. YMGYNGHORIAD AR HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd (ac Iaith) yn cyflwyno crynodeb o'r Hysbysiad Cydymffurfio a'r prif bwyntiau y gofynnid i'r pwyllgor eu trafod ac ymateb iddynt.

Nodwyd y byddai ymgynghori hefyd gyda'r Grŵp Rheoli a'r Tîm Rheoli Corfforaethol cyn i'r Aelod Cabinet ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau ar gynnwys y safonau:-

1. Cyflenwi Gwasanaethau (1-87)

- Safonau 2, 3, 21, 28, 32, 72 – Mae'r egwyddor o gyflenwi gwasanaethau yn ôl yr angen yn hytrach nag yn ôl y dewis yn egwyddor sylfaenol, a dylai fod yn egwyddor drwy Gymru gyfan. Os rhoddir dewis, mae pobl yn dueddol o ddweud nad oes ots ganddynt, a gallai hynny arwain at leihau'r defnydd o'r Gymraeg.
- Safon rhif 12 – Awgrymir bod lle i roi'r Gymraeg flaenaf wrth hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau.
- Safon 30 – Mae'r Cyngor yn darparu cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod cyhoeddus a gynhelir, ac mae'r Gymraeg wedi ei normaleiddio i'r graddau fod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol bod modd iddynt siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor.
- Safon rhif 49 – Nid yw'n arferol i'r Cyngor hwn lunio fersiwn Cymraeg a Saesneg o ddogfen ar wahân.
- Safonau 67-68 – Yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor, mae holl staff y derbynfydd yn gwbl ddwyieithog. O ganlyniad, nid yw'r staff yn gwisgo bathodynau i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, ac nid oes arwyddion yn datgan fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y

dderbynfa. Unwaith eto, mae lle i ddadlau bod polisi'r Cyngor fel ag y mae yn fwy na digonol ar gyfer y gofynion.

- Cyffredinol –
- Mae Cynllun Iaith y Cyngor eisoes yn mynd y tu hwnt i ran helaeth o'r safonau hyn. Dylid sicrhau nad yw geiriad y safonau yn glastwreiddio'r Cynllun Iaith a'u bod yn adlewyrchu'r sefyllfa sydd wedi datblygu yn naturiol yng Ngwynedd dros y blynyddoedd drwy arferiad a gweithdrefnau.
- Rhaid cadw mewn cof y trefniadau ad-drefnu ar gyfer yr Awdurdodau Lleol ac effaith bosib' hyn ar gydymffurfiaid â'r Safonau maes o law.

2. Llunio Polisi (88-97)

- Croesawir y ffaith bod y Cyngor yn llunio polisiâu sydd ddim yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg fel mater o drefn, ond cytunwyd y byddai ffurfioli'r drefn drwy roi strwythur mewn lle i brofi bod ystyriaeth lawn wedi'i roi i'r Gymraeg, yn ffordd o hybu hynny mewn ffordd gadarnhaol.
- Na ddymunir creu gwaith papur ychwanegol, ond yn hytrach gellid plethu cyfundrefn i dystiolaethu i'r drefn bresennol o gyflwyno polisiâu i'r Cabinet.

3. Gweithredu (98-144)

- Dylai'r safonau ganiatáu i'r Cyngor hwn barhau i weithredu yn unol â'i Gynllun Iaith o safbwynt gweinyddiaeth fewnol oherwydd gallai rhoi'r pwyslais ar 'ddewis' iaith effeithio yn negyddol ar statws y Gymraeg yn hytrach na'i chryfhau drwy arwain at aelodau o staff yn dewis derbyn gwybodaeth yn Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg.
- Y gallai'r ffaith y byddai gan y Safonau fwy o rym na Chynllun Iaith y Cyngor effeithio yn negyddol ar allu Cyngor Gwynedd i gario ymlaen i weithredu fel y mae ar hyn o bryd yng ngoleuni unrhyw her.

4. Cadw Cofnodion (147-154) a Safonau Atodol (155-176)

- Er bod cadw cofnodion ar gyfer cydymffurfio â'r safonau yn mynd i greu mwy o waith i'r Cyngor hwn, byddai'r Cyngor yn fodlon ysgwyddo'r baich gan ei fod yn mynd i fod o gymorth o safbwynt gorfodi cynghorau eraill i weithredu yn yr un modd. Byddai hefyd yn fodd o gadarnhau sefyllfa'r Cyngor hwn petai unrhyw fater yn codi.

5. Hybu (173-174)

- Mae gan y Cyngor (o dan Hunaniaith) Strategaeth Iaith i'r sir, a gyhoeddwyd yn 2014 am gyfnod o 3 blynedd. Byddai llunio Strategaeth newydd o fewn y flwyddyn, i gydymffurfio â safonau 145-174 yn ddibwrpas. Mae amheuaeth hefyd ynglŷn â gallu'r Cyngor i fesur effaith gwireddu uchelgais unrhyw strategaeth bob 5 mlynedd, gan mai'r Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell ddata ar gyfer mesur nifer a chanran siaradwyr Cymraeg.

Cyffredinol.

- Nid yw'r safonau arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth y camau blaengar mae'r Cyngor hwn yn eu cymryd eisoes a rhaid i hynny gael ei grisialu yn y safonau mewn rhyw ffordd.

Pwysleisiwyd yr angen i roi cyhoeddusrwydd ehangach i'r ymgynghoriad a'r sylwadau gan hefyd lobïo am ymestyn y safonau i holl gyrff llywodraeth ganolog sy'n weithredol yng Nghymru.

PENDERFYNWYD gofyn i'r swyddogion:-

- (a) Grynhoi'r pwyntiau a godwyd a chylchredeg ymateb yr Aelod Cabinet i aelodau'r pwyllgor, ar ffurf drafft os yw amser yn caniatáu.**
- (b) Rhoi cyhoeddusrwydd ehangach i'r ymgynghoriad a'r sylwadau drwy gyfrwng yr Uned Gyfathrebu a Rhaeadr.**
- (c) Lobïo am ymestyn y safonau i holl gyrff llywodraeth ganolog sy'n weithredol yng Nghymru.**

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00pm a daeth i ben am 4.00pm.

Eitem 5

Ymchwiliad Iaith – Y Gymraeg mewn Cyfarfodydd – Terfynol

Adroddiad Ymchwiliad Iaith – Y Gymraeg mewn Cyfarfodydd

Aelodau'r Ymchwiliad

Y Cynghorydd Craig ab Iago

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

Y Cynghorydd Charles Jones

Y Cynghorydd Elfed Williams

Y Cynghorydd Gweno Glyn

Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (hyd at Mai, 2015)

Swyddogion

Arwel E Jones (Swyddog Arweiniol)

Eirian Roberts (Swyddog Cefnogol)

Cyngor Gwynedd

Stryd y Jêl,

Caernarfon,

Gwynedd

LL55 1SH

Hydref 2015

Cynnwys

Yr Adroddiad	Tudalen
1. Cyd-destun	3
2. Pwrpas yr Ymchwiliad	3
3. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad	4
4. Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion yr Ymchwiliad	5
Yr Atodiadau	
Atodiad 1 – Crynodeb o ganlyniadau'r Holiadur ar gyfer Rheolwyr ac Aelodau o'r Cyngor	
Atodiad 2 - Crynodeb o ganlyniadau'r Holiadur ar gyfer Cyrff Allanol	
Atodiad 3 – Rhestr o'r rhai a gyfwelwyd gan yr Ymchwiliad	
Atodiad 4 – Dadansoddiad o ganlyniadau holiaduron i staff sy'n gweithio i Gyngor Gwynedd ar yr hyn y maent yn gwerthfawrogi o ran gweithio i'r Cyngor	
Atodiad 5 – Canllawiau "Cadeirio Cyfarfodydd Dwyieithog", (cyhoeddwyd gan Hunaniaith a Bwrdd yr Iaith Gymraeg)	

1. Cefndir

1.1 Yn ei gyfarfod ar 23 Hydref, 2014, bu'r Pwyllgor Iaith yn ystyried yr angen am strwythur ar gyfer edrych mewn mwy o fanylder ar elfennau penodol nad oedd modd rhoi sylw dyladwy iddynt yn y cyfarfodydd pwyllgor.

1.2 Penderfynodd y pwyllgor:-

- Cynnal un ymchwiliad yn unig ar y tro, gydag uchafswm o 2 ymchwiliad o fewn blwyddyn galendr (yn unol â'r drefn ymchwiliadau craffu).
- Y dylai'r ymchwiliadau edrych ar bolisiau a gweithdrefnau'r Cyngor yn y lle cyntaf.

1.3 Penderfynwyd hefyd sefydlu'r ymchwiliad cyntaf gan ofyn iddo edrych ar y defnydd o'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith ymysg staff ac aelodau'r Cyngor, gyda golwg arbennig ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol.

2. Pwrpas yr Ymchwiliad

2.1 Cytunodd yr Ymchwiliad i'r briff a ganlyn ar gyfer yr Ymchwiliad:-

Un o Amcanion Sylfaenol Cynllun Iaith y Cyngor yw hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardaloedd y Cyngor

Diben yr Ymchwiliad oedd:-

a) edrych ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd fel un dull o wneud hynny a
b) sicrhau a hwyluso cydymffurfiaeth â chymal 3.3.5. Y Cynllun Iaith: "Byddwn yn cyfarwyddo staff i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau allanol, ac i ofyn am ddarpariaeth cyfieithu-ar-y-pryd."

- Gallai'r meysydd dan sylw gynnwys:
 - Pwyso ar gyrff a mudiadau allanol i ddarparu cyfieithu-ar-y-pryd
 - Cadeirio cyfarfodydd dwyieithog a sut i annog o'r Gadair
 - Cyfrannu at gyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg
 - Sut i gyfathrebu'r anghenion yn effeithiol a chofiadwy

DS - Nodwyd y byddai'r Ymchwiliad yn llunio cyfres o argymhellion gan eu rhannu gyda'r Pwyllgor Iaith cyn iddynt gael eu rhoi ar waith.

3. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad

3.1 Cytunwyd ar raglen waith a oedd ceisio cyfarch y briff. Roedd sawl cam gwahanol i'r rhaglen waith:

3.2 Cam 1

- Lluniwyd holiadur i gyrff allanol (mewn ymgynghoriad â'r Uned Ymchwil ac aelodau'r ymchwiliad) yn holi am eu darpariaethau ar gyfer y Gymraeg mewn cyfarfodydd gan eu hysbysu y bydd eu hymatebion yn cael eu rhannu gyda chynrychiolwyr y Cyngor ar y cyfryw gyrff er mwyn gwirio ar sail eu profiadau hwy.
- Lluniwyd holiadur i reolwyr o fewn y Cyngor (mewn ymgynghoriad â'r Uned Ymchwil ac aelodau'r ymchwiliad) yn holi (yn ddiennw) am eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol.

3.3 Cam 2

- Cyfarfod o'r ymchwiliad:-
 - (a) Cyfwelwyd Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet – Y Gymraeg a'r Prif Weithredwr.
 - (b) Cyfwelwyd Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor am y seicoleg o ran defnydd iaith.

3.4 Cam 3

- Cynhaliwyd cyfarfod pellach i holi swyddogion unigol ymhellach am eu profiad am y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd y tu allan i'r Cyngor ac ar drefniadau cyfieithu mewn cyfarfodydd o'r fath a'r hyn a wna'r Cyngor i gefnogi ei staff i ddatblygu yn ei hyder o ran defnyddio'r Gymraeg.

3.5 Cam 4

- Paratowyd adroddiad, ei drafod gydag Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet – Y Gymraeg a'r Prif Weithredwr. a chyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Iaith.

DS Dylid nodi bod yr Ymchwiliad wedi canolbwyntio ar gyfarfodydd cyfundrefnol, neu fel mae'r Cynllun Iaith yn nodi "cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau allanol.". Nid oedd yr Ymchwiliad yn edrych ar gyfarfodydd bychan anffurfiol o ddau neu dri o bobl lle y derbynnir bod patrwm iaith "un i un" unigolion yn wahanol a bod angen gwneud yn glir bod gwahaniaeth o ran y disgwyliadau mewn cyfarfodydd cyfundrefnol sydd yn fwy o ran maint a ffurfioldeb.

4. Prif Ganfyddiadau'r Ymchwiliad

- 4.1 Mae'r Ymchwiliad wedi dael budd mawr o dderbyn mewnbwn rheolwyr ar draws y Cyngor drwy'r holiadur a chyfarfodydd unigol ac wedi ei galonogi yn fawr iawn gan awydd swyddogion i fod yn gweithredu Polisi Iaith y Cyngor. Mae'n amlwg hefyd bod nifer o staff yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwaith pob dydd ac o weithio i sefydliad sydd yn annog a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith.
- 4.2 Yn gyson, mae holiaduron staff wedi dangos bod y "gallu defnyddio'r iaith Gymraeg yn fy ngwaith" wedi dod allan fel y trydedd rheswm bob tro pam mae staff yn teimlo bod Cyngor Gwynedd yn lle gwych i weithio (ar ôl amodau a thelerau gwaith da a'r bobl eraill y maent yn cyd-weithio â hwy).(Gweler Atodiad 4) Nid dyna'r sefyllfa mewn sefydliadau cyhoeddus eraill y tu fewn a'r tu allan i'r sir ac, yn amlwg, roedd profiadau swyddogion ac aelodau o fynychu cyfarfodydd allanol yn rhai reit amrywiol
- 4.3 Roedd y wybodaeth o'r holiaduron hefyd yn dadlenni sefyllfa lle mae rheolwyr ac aelodau'r Cyngor yn wynebu'r sefyllfaoedd a ganlyn pan yn mynychu cyfarfodydd y tu allan i'r Cyngor
- Yn achlysurol, mynychir cyfarfodydd lle nad oes unrhyw ddarpariaeth gyfieithu o gwbl
 - Pan y mae offer ar gael, mae rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn medru bod yn anghyfarwydd â defnyddio offer ac yn amharod i'w ddefnyddio yn sgil hynny
 - Pan y mae offer cyfieithu yn cael ei ddarparu, mae'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd hynny yn y lleiafrif ac mae'r rhai sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn llai fyth
- 4.4 Yn sgil yr uchod, mae'r Ymchwiliad wedi adnabod nifer o argymhellion lle yr ystyrir y mae lle i wella.

1. Gwybodaeth i Gyrrff Allanol
Canfyddiadau – Mae diwylliant ac arferion cyrff a sefydliadau eraill yn gwbl wahanol o ran y disgwyliad i fedru siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd
Tystiolaeth – Profiad rheolwyr ac aelodau wrth fynychu cyfarfodydd allanol
Argymhelliad i'r Aelod Cabinet – Argymhellir bod y Cyngor yn cysylltu gyda phob corff allanol y mae'n enwebu rheolwyr ac aelodau iddynt i dynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor yn:- <ul style="list-style-type: none">• Disgwyl i gynrychiolwyr o'r Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd hynny trwy gyfrwng y Gymraeg• Disgwyl darpariaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyfundrefnol o'r fath• Disgwyl bod papurau ar gyfer y cyfarfodydd yn cael eu paratoi yn ddwyieithog• Disgwyl y bydd anogaeth i gynrychiolwyr y Cyngor, ac eraill, i gyfrannu trwy

gyfrwng y Gymraeg
2. Cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd allanol
Canfyddiadau – Mae canfyddiad nad yw rheolwyr nac aelodau yn ymwybodol o bolisi presennol y Cyngor o “gyfarwyddo staff i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau allanol, ac i ofyn am ddarpariaeth cyfieithu-ar-y-pryd.”
Tystiolaeth – Ymateb yr holiaduron a sgysiau unigol gyda rheolwyr yn awgrymu bod awydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ond bod rhai yn teimlo pwysau cudd i beidio â gwneud hynny rhag ymddangos yn drafferthus i gyd-aelodau a chyd-weithwyr
Argymhelliad i'r Aelod Cabinet – Argymhellir bod y Cyngor, wrth enwebu cynrychiolwyr i gyfarfodydd allanol (boed yn rheolwyr neu aelodau) yn eu hatgoffa:- <ul style="list-style-type: none">• Bod y Cyngor yn dymuno eu cefnogi yn eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd o'r fath• Mai gweithredu polisi'r Cyngor y maent wrth wneud hynny a nid gweithredu ar fympwy personol• Y dylid cysylltu â chyrrff allanol cyn mynychu cyfarfodydd i holi os bydd darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael• Y dylid adrodd yn ôl i'r Cyngor am unrhyw sefyllfaoedd lle y mae'n amlwg nad yw corff allanol neu sefydliad arall wedi darparu'r cyfle na'r gefnogaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg• Bod technegau ar gael i wneud y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd yn haws (ee rhagymadroddi ychydig i roi cyfle i unigolion di-Gymraeg wisgo eu clustffonau os nad ydynt eisoes yn gwneud)
3. Cadeirio Cyfarfodydd
Canfyddiadau – Mae rôl y Cadeirydd mewn cyfarfodydd yn allweddol o ran gosod y tôn ar gyfer cyfarfod yn cynnwys y patrwm ieithyddol
Tystiolaeth – Mae canllaw “Cadeirio Cyfarfodydd Cymraeg a Dwyieithog” (Gweler Atodiad 5) yn cynnig arweiniad clir ac effeithiol ar gyfer gwneud hynny ond prin yw'r dystiolaeth o gadeiryddion yn gosod cyd-destun positif ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol
Argymhelliad i'r Aelod Cabinet – Argymhellir bod y Cyngor yn dwyn sylw cyrrff ac asiantaethau allanol at y canllawiau

ar gadeirio cyfarfodydd Cymraeg a dwyieithog ac yn eu hannog i'w rhannu gyda'u cadeiryddion er mwyn eu grymuso i annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd

4. Dylanwadu ar Bartneriaid Cyhoeddus Sirol

Canfyddiadau –

Mae gan y Cyngor rôl arweiniol allweddol i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ac ennill cyfeillion i'r Gymraeg.

Mae lefel y ddarpariaeth o wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sector gyhoeddus yng Ngwynedd yn amrywio a nid yw trigolion yn medru bod yn sicr o'r lefel o wasanaeth y medrant ei ddisgwyl

Tystiolaeth –

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn comisiynu gwaith i greu diffiniad o weithle dwyieithog y byddai'r Cyngor a'i bartneriaid yn ei fabwysiadu fel diffiniad safonol er mwyn ceisio "sicrhau eglurder a safon cyson o wasanaethau cyhoeddus dwyieithog i drigolion" dros amser

Mae Safonau'r Iaith Gymraeg, fel y maent wedi ei drafftio, yn cynnig isafswm safon ond nid un sydd yn ddigonol i drigolion mewn sir fel Gwynedd sydd â chanran mor sylweddol o'i drigolion yn siarad Cymraeg.

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir bod adroddiad yn ôl i Bwyllgor Iaith y Cyngor ar gynnydd prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Lleol

5. Dylanwadu ar Gyngorau Eraill

Canfyddiadau –

Mae gan y Cyngor rôl arweiniol allweddol i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ac ennill cyfeillion i'r Gymraeg.

Mae angen gwneud mwy i geisio dwyn perswad ar gyngorau eraill am bwysigrwydd hybu a chaniatau defnydd y Gymraeg

Tystiolaeth –

Mae patrwm y ddarpariaeth Gymraeg ar draws cyngorau yng Nghymru yn amrywiol iawn.

Nid oes strwythur yn ei le ar gyfer ceisio dylanwadu ar a chefnogi cyngorau i wella yn eu darpariaeth

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn ceisio dwyn ynghyd grwp o Aelodau Cabinet sydd yn cario'r Portffolio Iaith o fewn cyngorau eraill fel dechrau i'r gwaith o ddwyn perswad a hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y cyngorau hynny


<p>6. Awdit o'r Gymraeg o fewn y Cyngor</p> <p>Canfyddiadau –</p> <p>Mae angen i'r Cyngor fodloni ei hun ynglyn â'r hyder a'r parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws ei wasanaethau ac mae angen targedu gwaith hybu a datblygu sgiliau ymysg staff</p>
<p>Tystiolaeth –</p> <p>Mae'r Cyngor, yn ei Gynllun Strategol, wedi ymrwymo i sefydlu dealltwriaeth "o'r modd y mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r Gymraeg ar hyn o bryd, a'r cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael i'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg gyda thrigolion y sir"</p> <p>Mae'r gwaith hybu a datblygu sgiliau'r Gymraeg ar hyn o bryd yn waith ymatebol sydd yn ymateb i geisiadau yn hytrach na'i fod wedi ei dargedu ar sail asesiad</p>
<p>Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –</p> <p>Argymhellir bod yr Aelod Cabinet adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Iaith ar ganlyniadau'r Awdit yn fuan yn 2016/17 gan adrodd ar y camau gweithredu arfaethedig sydd yn codi o'r Awdit</p>
<p>7. Eglurder a Symlder iaith</p> <p>Canfyddiadau –</p> <p>Mae canfyddiad bod Cymraeg swyddogol y Cyngor yn medru bod yn gymhleth ac anodd i'w ddeall ac mae'n medru bod yn achos i rai sydd yn llai hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg oedi cyn mentro</p>
<p>Tystiolaeth –</p> <p>Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad a chanfyddiadau aelodau'r Ymchwiliad</p>
<p>Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –</p> <p>Argymhellir bod neges yn mynd allan i staff y Cyngor bod y Cyngor yn awyddus i aelodau o staff fentro yn eu defnydd o Gymraeg clir a syml er mwyn datblygu eu hyder a'u sgiliau ymhellach.</p>

Y DEFNYDD O'R GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD – RHEOLWYR AC AELODAU GWYNEDD


CANLYNIADAU'R HOLIADUR

Roedd 96 holiadur wedi cael ei gwblhau gan reolwyr ac aelodau Gwynedd.


1. Pa mor aml ydych yn mynychu cyfarfodydd y tu allan i'r Cyngor?




2. A oes trefn ar gyfer darparu papurau dwyieithog (Cymraeg / Saesneg) yn y cyfarfodydd hynny?




3. A oes trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfodydd hynny?




4. A ydych yn defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfodydd hynny?




5. Os nad ydych yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur, beth yw'r rheswm pam nad ydych yn gwneud hynny? - Rwyf mewn lleiafrif bychan sydd yn medru siarad Cymraeg




5. Os nad ydych yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur, beth yw'r rheswm pam nad ydych yn gwneud hynny? - Nid wyf yn ddigon hyderus i siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd hyn




5. Os nad ydych yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur, beth yw'r rheswm pam nad ydych yn gwneud hynny? - Nid oes darpariaeth gyfieithu




5. Os nad ydych yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur, beth yw'r rheswm pam nad ydych yn gwneud hynny? - Nid yw'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei groesawu




**6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg
mewn cyfarfodydd allanol? - Cadeirydd sy'n medru siarad Cymraeg**




**6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg
mewn cyfarfodydd allanol? - Papurau ar gael yn y Gymraeg**




**6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg
mewn cyfarfodydd allanol? - Offer cyfieithu ar gael**



**6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg
mewn cyfarfodydd allanol? - Hybu pobl i siarad Cymraeg os ydynt yn
gallu**



**6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg
mewn cyfarfodydd allanol? - Bathodynau i bobl ddweud eu bod yn
siarad Cymraeg**



Y DEFNYDD O'R GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD - CYRFF ALLANOL


CANLYNIADAU'R HOLIADUR

Dim ond 12 holiadur oedd wedi eu cwblhau gan gyrff allanol sef:-


- Rheilffordd Arfordir y Cambrian
- WLGA Employment Team
- Gwasanaeth Cyfun Mwynau a Gwastraff Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Llyfrau Cymru
- Cynllun Datblygu Gwledig Gwynedd (rhan o adran Economi Gwynedd)
- Ymddiriedolaeth Capel Newydd, Nanhoron (elusen)
- Cyngor Cymru ar gyfer y Byddar
- Cymdeithas Canolfan Noddfa
- Cyngor Sir y Fflint
- GISDA
- Theatr Harlech Cyf
- Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy

Gweler ganlyniadau'r ymatebion isod:-


1. A oes gennych bolisi neu drefn benodol ar gyfer darparu papurau dwyieithog (Cymraeg / Saesneg) yn eich cyfarfodydd?



2. I ba raddau yr ydych yn cyfeirio at neu'n gwneud defnydd o'r polisi neu drefniadau hynny?




3. A oes gennych drefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn eich cyfarfodydd cyfundrefnol?




4. Faint o aelodau ar eich cyrff allanol sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd cyfundrefnol?

Rheilffordd Arfordir y Cambrian	20 - Un neu ddau o swyddogion yn cynrychioli cyrff eraill yn cyflwyno neu adrodd yn Saesneg e.e Network Rail, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Ond ar y cyfan mae'r gweithdrefnau yn cael eu cynnal yng Nghymraeg.
WPGA Employment Team	Heb ymateb
Gwasanaeth Cyfun Mwynau a Gwastraff Cyngor Sir y Fflint	3 – Mae hyn ond yn berthnasol i'r Gwasanaeth Cyfun Mwynau a Gwastraff a nid Cyngor Sir y Fflint yn ei gyfanrwydd
Cyngor Llyfrau Cymru	6
Cynllun Datblygu Gwledig Gwynedd (rhan o adran Economi Gwynedd)	Mae'r cyfarfodydd allan bron i gyd gyda aelodau iaith gyntaf cymraeg – tua 90%
Ymddiriedolaeth Capel Newydd, Nanhoron (elusen)	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfarfod yn anaml; mae pawb sydd yn weithredol arno yn medru'r Gymraeg
Wales Council for Deaf People	Cyn belled ag y gwn, cynhelir yr holl gyfarfodydd yn Saesneg
Cymdeithas Canolfan Noddfa	Cynhelir yr holl gyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg
Cyngor Sir y Fflint	Mae hyn yn anodd i'w ganfod a byddai'n dibynnu ar sgiliau ieithyddol aelodau. Mae un aelod etholedig yn sraiadwr Cymraeg rhugl ond mae aelodau eraill wedi eu cefnogi i ddysgu Cymraeg
GISDA	Dau gynghorydd
Theatr Harlech Cyf	Dim sylwadau
Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy	Dibynnu at ba gyrff allanol rydych chi'n cyfeirio


5. A yw aelodau a swyddogion Cyngor Gwynedd, sydd yn mynychu eich cyfarfodydd yn gwneud defnydd o'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd?




6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Cadeirydd sy'n medru siarad Cymraeg




6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Papurau ar gael yn Gymraeg




6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Offer cyfieithu ar gael



6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Hybu pobl i siarad Cymraeg os ydynt yn gallu



6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Bathodynau i ddweud eu bod yn siarad Cymraeg



ATODIAD 3

<u>Cyfarfodydd</u>	<u>Gwahoddedigion</u>
27 Ebrill	Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor Arweinydd y Cyngor Aelod Cabinet – Y Gymraeg Prif Weithredwr
16 Gorffennaf	Bethan Evans (Arweinydd Tîm Cyfieithu) Nia Gruffydd (Rheolwr Gwasanaethau Defnyddwyr) Bryn Hughes (Rheolwr Amlogfa) Gareth James (Rheolwr - Cefnogi Aelodau a Chraffu)
10 Medi	Arweinydd y Cyngor Aelod Cabinet – Y Gymraeg Prif Weithredwr Catrin Parri (Swyddog Datblygu Gweithlu / Cyd-gysylltydd Iaith Gymraeg)

NODYN AR GANLYNIADAU HOLIADURON STAFF

Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn o'r brif atebion i gwestiwn agored "Beth sy'n gwneud Cyngor Gwynedd lle gwych i weithio" mewn holiaduron staff dros y blynyddoedd. Mae'n bwysig nodi bod hwn wedi bod yn gwestiwn hollol agored heb restr o ddewisiadau.

Yn 2013 roedd 8% o'r atebion yn deud "y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg" (DS Roedd "aelodau eraill o'r tim" yn bell ar y blaen gyda 40% o'r atebion). Mae'r canran o ymatebion ynglyn â'r Gymraeg ar yr un lefel â "Fy rheolwr", "darparu gwasanaethau o werth", "amodau a thelerau gwaith" a hefyd "y gallu i weithio'n hyblyg".

Yn 2011, er bod y canran yn llai (tua 5.5%) roedd yn rhan o'r un "grwp" o atebion. Roedd amrywiaeth yr atebion wedi gostwng y canrannau yn gyffredinol (e.e. oedd "aelodau eraill o'r tim" dal yr ateb uchaf, ond gyda chanran o ddim ond 28%).

Yn 2009 oedd 4.5% yn rhoi "defnydd o'r Gymraeg" fel ateb ond eto yn rhan o'r un grwp o atebion a'r ddau arolwg arall.

Oherwydd bod hwn yn gwestiwn agored gyda'r nifer o atebion yn amrywio o arolwg i arolwg, rhaid cymryd gofal o sut yr ydym yn defnyddio'r canrannau (hynny ydy, nid yw'r cynnydd yn y ganran o 2009 i 2013 ddim o reidrwydd yn dangos mwy o ymrwymiad at yr laith).

Fodd bynnag, mae yn sicr ei fod yn un o'r ffactorau pwysicaf gan staff pan y maent yn meddwl am "Beth sy'n gwneud Cyngor Gwynedd lle gwych i weithio" ac yn rhan o'r ail grwp o'r atebion mwyaf poblogaidd – ar ôl atebion sy'n ymwneud a'r "tim" - ar bob achlysur, ochr wrth ochr â phethau sylfaenol eraill i fywyd gwaith staff fel "amodau a thelerau gwaith".

Cadeirio Cyfarfodydd Cymraeg a Dwyieithog

Canllaw i Gadeiryddion



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG · WELSH
LANGUAGE BOARD



Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



Bwriad y canllaw hwn ydy...

eich cynorthwyo chi fel cadeirydd i:

- alluogi eich grŵp i barhau i gynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg
- adfer y sefyllfa os ydy eich grŵp neu bwyllgor yn ddiweddar wedi gorfod dechrau cynnal eich cyfarfodydd trwy gyfrwng y Saesneg trwy ddefnyddio gwahanol dechnegau i sicrhau bod y di-Gymraeg yn gallu cyfrannu at weithgarwch eich grŵp
- ganiatàu i aelodau'r grŵp gael cyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis.

Tud. 31

Swyddogaeth Cadeirydd

Fel cadeirydd, mae llwyddiant eich grŵp neu bwyllgor yn dibynnu'n helaeth arnoch chi!

Chi sydd yn bennaf gyfrifol am gael pawb i gyfrannu a chydweithio.

'Waeth pa mor ffurfiol neu anffurfiol yw'ch grŵp, mae'n bwysig eich bod yn gwneud i bawb deimlo bod eu cyfraniad yn bwysig.

Bydd eich agwedd chi, eich ffordd o siarad a thrafod pobl, yn cyfrannu at hyn wrth gwrs, ond mae hefyd yn bwysig eich bod yn ymwybodol o agweddau a gallu aelodau'r grŵp i siarad y Gymraeg a'r Saesneg.





Arferion iaith

Wrth gael eich ethol yn Gadeirydd, roeddech yn etifeddu llw o arferion y grŵp / pwyllgor, gan gynnwys arferion ieithyddol.

Mae 69% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg ac mewn llawer rhan o Wynedd, mae grwpiau a phwyllgorau cymunedol fel arfer yn cynnal eu cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfarfodydd capel, ysgol Sul, ysgolion cynradd, yr Urdd, yr Eisteddfod leol ac ati yn draddodiadol wedi cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg, ond bellach, mae pobl sy'n symud i fyw i'r ardal hefyd yn awyddus i ymuno a bod yn rhan o weithgareddau'r gymuned.

Mae'n gallu bod yn sefyllfa anodd wrth drïo cynnwys y bobl hyn, eu hannog i gyfrannu i weithgarwch y gymuned a pharhau i gadw iaith y cyfarfodydd yn Gymraeg.

Pam cadw'r Gymraeg?

Pam na thrown y cyfarfodydd yn gyfarfodydd dwyieithog neu Saesneg, wedi'r cwbl, mae'r Cymry Cymraeg yn medru siarad Saesneg yr un mor rhugl?

Un rheswm pwysig yw mai dim ond ar y rhan fechan hon o'r ddaear mae'r Gymraeg yn iaith naturiol cyfarfodydd, ac mi fyddai peidio â pharhau i siarad Cymraeg yn golygu colli iaith a llawer mwy na hynny, colli ffordd o fyw. Ac unwaith y bydd yr iaith wedi ei cholli, bydd yn rhy hwyr i'w chael yn ôl wedyn...

Cyfieithu ar y pryd

Yr ateb symlaf i sicrhau fod pob aelod o'r pwyllgor yn gallu cyfrannu yn yr iaith o'i ddewis ydi defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Mae'r cyfieithydd yn bresennol i hyrwyddo cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

Bydd y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg yr un mor ddibynnol arno ran eu gallu i gyfathrebu yn eu llewis iaith.

33 Mae yno at wasanaeth pawb a dylai hynny hyrwyddo cydweithio o fewn y grŵp.

Y MANTEISION

Mae modd parhau â'r arfer o gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg, a galluogi aelodau di-Gymraeg i gyfrannu a gwneud eu rhan dros y gymuned.

Mae cyfieithu ar y pryd wedi hen ennill ei blwy yng Ngwynedd, ac mae'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg erbyn hyn wedi arfer clywed cyfieithu mewn cyfarfodydd, yn enwedig felly yn y sector cyhoeddus.

I lawer aelod di-Gymraeg, mae defnyddio offer cyfieithu ar y pryd yn aml iawn yn gam cyntaf o'u siwrnai i ddysgu'r iaith a gwerthfawrogi'r diwylliant lleol.

Gall darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd fod yn fuddsoddiad gwerth chweil er mwyn hyrwyddo cynydd mewn gweithgarwch cymunedol a chydlynad ieithyddol a chymunedol.

Os ydych yn dymuno gwarchod y Gymraeg yn eich cyfarfodydd, mae'n syniad da i lunio polisi iaith ar gyfer eich grŵp. Gallai polisi iaith o'r fath nodi mai yn Gymraeg y bydd eich cyfarfodydd yn cael eu cynnal, ac y byddwch yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i sicrhau hynny.



Beth ddylech chi
fel **Cadeirydd**
ei wneud...



Tud. 34

Ymlaen llaw

DOGFENNAETH

Dylech chi neu'r ysgrifennydd sicrhau fod y ddogfennaeth i gyd, gan gynnwys cofnodion y cyfarfod diwethaf, yr agenda, unrhyw adroddiadau, cyflwyniadau powerpoint ac ati, yn cael eu hanfon at y cyfieithydd ychydig ddyddiau ymlaen llaw.

Gorau oll os gallwch anfon yr holl ddogfennaeth at y cyfieithydd ymlaen llaw yn ddwyieithog, wedi'r cyfan os oes angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfarfod, mae hefyd angen i chi ddarparu'r ddogfennaeth i'r aelodau hynny yn ddwyieithog hefyd.

LLEOLI'R OFFER

Mae'n rhaid i'r cyfieithydd osod ei offer yn y man gorau iddo allu gweld a chlywed pawb, ond mae'r un mor bwysig bod yr offer yn cael ei osod mewn man sydd ddim yn ymyrryd ar eich cyfarfod.

Fel cadeirydd, dylech ymdrechu i gyrraedd ychydig yn gynnar i drafod hyn gyda'r cyfieithydd cyn y cyfarfod.

Ar ddechrau'r cyfarfod

ANNOG DEFNYDD O'R GYMRAEG

Croesawch bawb yn ddwyieithog ac egluro mai trwy gyfrwng y Gymraeg y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal, ond bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i sicrhau bod y di-Gymraeg yn gallu dilyn a chyfrannu.

Gofynnwch i'r aelodau di-Gymraeg wisgo'u clustffonau.

Gosodwch esiampl i weddill y Cymry Cymraeg sy'n bresennol trwy siarad yn Gymraeg o hyn allan, ac annog y Cymry Cymraeg eraill i gyfrannu yn Gymraeg hefyd. Eglurwch y byddwch chi'n ateb cwestiynau yn Gymraeg, hyd yn oed os ydyn nhw'n cael eu gofyn yn Saesneg, ac annog y Cymry Cymraeg eraill i wneud yr un peth. Dyna pam fod gwasanaeth cyfieithu yn bresennol.

SICRHAU FOD PAWB YN CLYWED

Helpwch y cyfieithydd i wneud yn siŵr fod offer pawb yn gweithio ac nad yw lefel llais y cyfieithydd yn amharu ar y cyfarfod. O wneud hyn ar ddechrau'r cyfarfod byddwch wedi gwneud yn siŵr bod y cyfieithydd, y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg yn medru clywed.

ANNOG DYSGWYR

Holwch a oes dysgwyr yn y cyfarfod.

Os oes dysgwyr yn bresennol, dangoswch fel cadeirydd eich bod yn edmygu eu hymdrech i ddysgu Cymraeg, ac anogwch nhw i siarad Cymraeg yn y Pwyllgor. Mae gweld rhywun yn mynd i'r drafferth i ddysgu'r Gymraeg wastad yn braf, ac i'r dysgwr mae cael cyfle i glywed Cymraeg a chael cyfle ac anogaeth i gyfrannu yn Gymraeg yn gallu bod yn hwb mawr.

Yr un pryd, atgoffwch y Cymry Cymraeg i fod yn amyneddgar a rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg.

Yn ystod y cyfarfod

UN AR UNWAITH!

Peidiwch â gadael i bobl siarad ar draws ei gilydd. Ni all y cyfieithydd gorau yn y byd gyfieithu dau lais yr un pryd!

GLYNU AT Y GYMRAEG

Atebwch bob cwestiwn yn Gymraeg, hyd yn oed os iddyn nhw gael eu gofyn yn Saesneg. Mewn cyfarfod dwyieithog o'r fath, ni ddylai neb ystyried bod hyn yn anghwrtais.

Ond weithiau mae hynny'n anodd. Os byddwch wedi ateb cwestiwn Saesneg yn Saesneg, neu unrhyw un arall, mae'n syniad da i grynhoi yn Gymraeg. Mae sut y byddwch chi'n defnyddio'r Gymraeg ac yn glynu at y Gymraeg yn rhoi arweiniad clir i Gymry Cymraeg eraill yn y cyfarfod.

CYSWLLT LLYGAD

Cadwch lygad ar yr aelodau sy'n gwisgo clustffonau iddyn nhw wybod eich bod yn ceisio sicrhau eu bod nhw'n dilyn y drafodaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydyn nhw'n disgwyl ateb i gwestiwn. Rhowch amser iddyn nhw wisgo a thynnu eu clustffonau er mwyn gwrandao a siarad.



Cynnal cyfarfod Cymraeg heb gyfieithydd

Ni fydd gan rai grwpiau neu bwyllgorau yr adnoddau i dalu am gyfieithydd, felly beth allwch chi ei wneud pan fo aelodau di-Gymraeg yn ymuno â chi?

BETH I'W WNEUD?

Mae'n bosibl y gallai egluro'r anawsterau hyn fod yn ddigon i ddwyn perswâd ar aelodau'r pwyllgor fod cyfiawnhad wedi'r cyfan dros dalu cyfieithydd i fod yn bresennol.

Fel arall, y nod gobeithio, fyddai parhau i gynnal y cyfarfod yn Gymraeg

Eglurwch i'r di-Gymraeg y byddai newid iaith yn gam rhy fawr i'w wneud am y rhesymau a'r anawsterau hyn, ond y byddwch chi fel cadeirydd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb yn y grŵp yn medru dilyn.

ANAWSTERAU NEWID IAITH

Mae'n berffaith bosibl mai yn Gymraeg y mae cyfarfodydd yn y gymuned yma yn draddodiadol wedi cael eu cynnal

Gallai newid iaith greu anhawster ieithyddol i aelodau'r grŵp.

Er efallai bod pawb yn deall Saesneg, ac yn defnyddio Saesneg mewn gwahanol sefyllfaoedd, nid yw hynny'n golygu bod y Cymry Cymraeg yn gyfforddus yn siarad Saesneg yn gyhoeddus.

Mae hyn yn arbennig o wir am ddefnyddio Saesneg yn eu cymuned leol eu hunain gan newid iaith oes o gyfathrebu gyda chyfeillion a chymdogion.

Yn aml byddai'n well gan lawer o Gymry Cymraeg a llawer o bobl ddi-Gymraeg gadw draw yn hytrach na bod yn gyfrifol am newid iaith cyfarfod neu iaith gweithgarwch cymunedol.

Technegau y gallwch eu defnyddio

SYLWEBU

Trefnwch fod rhywun yn eistedd wrth ochr yr aelod di-Gymraeg gan grynhoi'r drafodaeth yn dawel yn Saesneg iddyn nhw. Does dim angen cyfieithu pob gair. Bydd llawer o'r cyfarfod yn ddealladwy heb gyfieithu pob gair – mae tôn llais a iaith y corff yn cyfleu llawer o'r ystyr hefyd.

Cofiwch y byddai'r sawl sy'n sylwebu yn gwneud hyn ar draul medru cyfrannu at y cyfarfod ei hun yn aml, felly dylid gofyn i Gymry Cymraeg wneud hyn yn eu tro.

DOGFENNAETH DDWYIEITHOG

Mae cael cofnodion ac agenda ac unrhyw ddogfennaeth neu gyflwyniad *Powerpoint* yn ddwyieithog yn hwyluso gallu cynnal cyfarfod ei hun trwy gyfrwng y Gymraeg, gan y gallai'r aelodau di Gymraeg ddilyn trefn yr eitemau.

I ddod o hyd i gyfieithydd, cysylltwch â
www.cyfieithwycymru.org.uk

01248 371839

Eitem 7

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	22 Hydref 2015
TEITL	Diweddariad ar Safonau'r Gymraeg
AWDUR	Gwenllian Williams Swyddog Datblygu Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r Safonau'r Gymraeg a chrynodeb o'r pwyntiau gweithredu er gwybodaeth.

1 CEFNDIR

- 1.1 Yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, derbyniwyd yr Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau terfynol ar 30 Medi 2015.
- 1.2 Roedd 165 o safonau yn yr hysbysiad cydymffurfio ym mis Gorffennaf.
167	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
168	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnwyd.	30/03/2016
169	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer (i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnwyd.	30/03/2016
170	Atodol - Gweithredu	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.	30/03/2016

		<p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -</p> <p>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);</p> <p>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn -</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);</p> <p>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p>	
--	--	---	--

		(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
171	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
172	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2016
175	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2016
176	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.	30/03/2016

Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn blwyddyn a 6 mis.

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Diwrnod Gosod
145	Hybu	Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer	30/03/2017

		cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).	
146	Hybu	Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi - (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a (b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn - (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny; (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.	30/03/2017
173	Atodol - Hybu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	30/03/2017
174	Atodol - Hybu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2017

Meri Huws

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 30/09/2015

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	22 HYDREF 2015
TEITL:	YMATEB COMISYNYDD Y GYMRAEG I'R ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH
AWDUR:	Gwenllian Williams Swyddog Datblygu Iaith
PWRPAS AR YR ADRODDIAD:	<ul style="list-style-type: none">• Cyflwyno ymateb y Comisiynydd i'r Adroddiad Blynyddol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r ymholiadau pellach.• Ceisio ymateb yr aelodau i'r materion a godir yn sgil yr adroddiad.

1. CEFNDIR

1.1 Anfonwyd yr Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Iaith y Cyngor at y Comisiynydd ar y 30 o Fehefin 2015.

1.2 Derbyniwyd ymateb y Comisiynydd i'r Adroddiad Blynyddol ar 17 Gorffennaf 2015. Roedd yr adroddiad ymateb yn cynnwys nifer o gwestiynau yr oedd gofyn i ni ymateb iddynt o fewn 20 niwrnod.

1.3 Anfonwyd ymateb i'r cwestiynau pellach hyn ar 14 Medi 2015 (Atodiad 1)

1.4 Bydd cyfarfod adborth yn cael ei gynnal gydag un o swyddogion y Comisiynydd 27ain Hydref 2015.

2. SYLWADAU AR YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

2.1 Tynnwyd sylw at ddau wendid wrth baratoi gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad blynyddol a'r ymateb i'r ymholiadau pellach.

2.2 Mae'r ddau fater yn cael sylw yn y Safonau, ac felly bydd angen ystyried sut y byddwn yn newid arferion yn y dyfodol.

i) Trefn adrodd ar gwynion

Y gwendid:

Cofnodwyd y cwynion yn yr adroddiad blynyddol un union fel yr oeddynt yn ymddangos yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor Iaith. Pan gafwyd ymholiad am rai o'r cwynion yn yr ymateb gan y Comisiynydd, daeth yn amlwg nad oedd pob un o'r achosion wedi eu cau yn foddhaol. Gan fod hon yn gofnod swyddogol o gwynion mae angen sicrhau trefn gadarn ar gyfer y dyfodol a sicrhau na fydd cwynion yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Iaith nes y bydd unrhyw ymholiadau wedi eu cwblhau ac ymateb wedi ei anfon i'r achwynydd os yn briodol.

Yr hyn mae'r Safonau yn gofyn i ni ei wneud:

Safon 147: Rhaid i chi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.

Safon 148: Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Safon 149: Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gwyn yn ymwneud a'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio a hwy ai peidio).

ii) Trefn cofnodi sgiliau iaith staff

Y gwendid:

Roedd anghysondeb yn yr wybodaeth a'r ymateb a gafwyd gan adrannau wrth geisio casglu'r data hwn ar gyfer yr adroddiad blynyddol. Ar hyn o bryd, dim ond nodi a yw staff yn siarad Cymraeg neu beidio y byddwn ni, ac mae hynny yn dibynnu i raddau helaeth ar ddehongliad rheolwr, yn enwedig wrth ystyried dysgwyr. Bydd angen ystyried i ba raddau ac ym mha fodd y byddwn yn cofnodi gallu ieithyddol yn y dyfodol. A ydym ni'n parhau i gofnodi yn yr un modd neu a oes angen i ni edrych ar sgiliau a rhuglder?

Yr hyn mae'r Safonau yn gofyn i ni ei wneud:

Safon 127: Rhaid i chi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.

Safon 151: Rhaid i chi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol a Safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, a phan fo hynny'n wybyddus i chi, rhaid i chi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r aelodau:

3.1 Derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'n Hadroddiad a'n ymateb ninnau i'r cais am wybodaeth bellach.

3.2 Derbyn yr argymhelliad na fydd Cwynion iaith yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor nes y bydd yr achosion wedi eu cau.

3.3 Ystyried i ba raddau y dylai'r Cyngor fod yn cofnodi sgiliau iaith.

Ymateb Cyngor Gwynedd i gais gwybodaeth pellach gan Comisiynydd y Gymraeg ar Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd

Gwybodaeth bellach ofynnol	Ymateb Cyngor Gwynedd
<p>Eglurwch, os gwelwch yn dda, pa drefniadau a wnaeth y Cyngor i ail-lenwi swydd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith.</p> <p>Darparwch ddiweddariad ar yr adroddiad arfaethedig mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector fusnes, os gwelwch yn dda.</p> <p>Darparwch ddiweddariad ar ddatblygiad y modiwl e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth iaith, os gwelwch yn dda.</p> <p>Darparwch ddiweddariad ar benodi pencampwyr iaith yng nghartrefi preswyl y sir, os gwelwch yn dda.</p> <p>Adroddwch ar gydymffurfiaeth darparwyr gofal cartref yn ystod 2014-15, os gwelwch yn dda.</p>	<p>Fel rhan o drefniadau ail-strwythuro'r Cyngor, cafodd cyfrifoldebau Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith y Cyngor eu rhannu rhwng y swyddogion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Polisi Corfforaethol • Swyddog Hyrwyddo Iaith • Swyddog Datblygu Iaith (1/2 swydd) <p>Cyflwynwyd adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar 29 Ionawr 2015, gan y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaid ac Iaith a chan Dwynwen Hywel, o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau.</p> <p>Ni chafodd y modiwl e-ddysgu ei ddatblygu yn fewnol gan bod disgwyl ar y pryd i Academi Cymru Gyfan ddatblygu modiwl ymwybyddiaeth iaith ar eu porth e-ddysgu, ac nid oedd dymuniad i ddyblygu gwaith. Yn anffodus, ni chafodd y teitl hwn ei gynnwys ar restr modiwlau'r Academi gan na chafodd ei ystyried yn flaenoriaeth gan yr aelod Gynghorau.</p> <p>Cafodd y syniad o benodi Pencampwyr Iaith mewn cartrefi preswyl ei grybwyll yn gyntaf mewn trafodaeth yn y Pwyllgor Iaith (Cofnod ar drafodaeth am bencampwyr o 2013-04-16 yn nodi'r angen i "edrych ar adrannau eraill o fewn y Cyngor yn eu tro"). Wedi edrych yn bellach ar staff y cartrefi, gwelwyd bod y Rheolwyr i gyd yn gallu'r Gymraeg yn rhugl, ac er bod ambell leoliad lle roedd mwy o broblemau gyda staff di-Gymraeg, teimlwyd bod y rôl o hyrwyddo'r Gymraeg eisoes yn rhan allweddol o swydd y Rheolwyr.</p> <p>Yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-15 adroddwyd ar gydymffurfiaeth darparwyr gofal cartref dan y teitl Darparwyr Gofal Cymunedol (tudalen 10).</p>

Cwestiynau y mae'n rhaid eu hateb	Ymateb Cyngor Gwynedd
<p>Pa adrannau neu unedau a gyflwynodd adroddiadau i'r Pwyllgor Iaith yn ystod 2014-15?</p> <p>A ddatrysodd y Cyngor y cwynion am y wefan Gymraeg a'r arwydd Teledu CC Saesneg, cyfrwng iaith y gwersi nofio a'r ffurflen P45 Saesneg?</p>	<p>Cyflwynwyd adroddiadau gan y canlynol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Iaith yn ystod 2014-15:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 04/04/2014 Rheolwr Datblygol Canolfannau Hamdden Gwynedd yn cyflwyno ar sgiliau ieithyddol a defnydd o Bencampwyr Iaith yn rhai o ganolfannau Hamdden y sir. • 26/06/2014 Uwch Reolwr Tai yn cyflwyno am Bolisi Gosod Cyffredinol a Dyraniad Tai Cymdeithasol • 29/01/15 Adran Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd a Dwynwen Hywel am wasanaethau Comisiynydd i fusnesau. <p>Cafodd y cwynion hyn i gyd eu cofnodi fel rhai caeedig yn adroddiadau cwynion y Pwyllgor Iaith. Dyma ddiweddariad ar y materion dan sylw a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol:</p> <p>Gwefan y Cyngor: Mater technegol o ran mynediad oedd hwn yn hytrach na chwyn am ddiffyg ieithyddol. Profwyd y system ar y pryd a ni chanfu'r tîm TG unrhyw broblemau.</p> <p>Arwydd Teledu CC: O edrych yn fanylach ar gofnodion y gwyn, ymddengys mai sylw am Gymraeg ansafonol yn hytrach na chwyn am absenoldeb y Gymraeg oedd hwn. Cafodd y mater sylw gan yr adran berthnasol.</p> <p>Gwersi nofio: Cafwyd cadarnhad gan Uwch Reolwr y Gwasanaeth Hamdden (08.09.2015) bod sgwrs wedi ei chynnal ar y pryd gyda hyfforddwr y Clwb Nofio dan sylw, a'r berthynas rhwng y gwasanaeth a'r Clwb wedi ei hegluro. Cadarnhawyd mai Clwb annibynnol yw'r Pengwins, bod is-hyfforddwyr y clwb yn gallu siarad Cymraeg, a bod y rhieni yn fodlon gyda chyfrwng iaith y gwersi.</p> <p>Ffurflen P45: Mae'r gwyn wedi dwyn sylw'r Cyngor at anawsterau yn ein ymwneud a threfniadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi. Rydym yn gwyntyllu hyn ar hyn o bryd gyda golwg ar oresgyn y broblem hyn yn y dyfodol fel bod modd ceisio gweithredu trefn lle mae'r holl ffurflenni ar gael yn y Gymraeg. Rydym wedi ymddiheuro i'r Achwynydd.</p>

<p>Ydy'r Cyngor yn cymryd camau penodol er mwyn sicrhau gwelliant yng nghyd-destun cydymffurfio â chontractau gofal cymdeithasol?</p>	<p>Mae Grŵp Tasg Mwy na Geiriau yn bodoli yn fewnol i edrych ar y mater hwn ac i geisio sicrhau bod y Cyngor yn cymryd camau priodol i sicrhau gwelliant.</p>
<p>A drefnwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer aelodau etholedig?</p>	<p>Trefnwyd hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith ar gyfer aelodau di-Gymraeg y Cyngor a chynhaliwyd y sesiwn ar y 4ydd o Chwefror 2014.</p>

Adroddiad Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg

Aelodau'r Ymchwiliad

Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Cynghorydd Elin Walker Jones
Cynghorydd Bethan Wyn Lawton
Cynghorydd Liz Saville Roberts (hyd at 7/5/2015)
Cynghorydd Dyfrig Siencyn (hyd at 1/9/14)
Cynghorydd Eirwyn Williams
Cynghorydd Hefin Williams

Swyddogion

Debbie Anne Williams Jones (Swyddog Arweiniol)
Ann Roberts (Swyddog Cefnogol)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH



Cyhoeddwyd:

Yr Adroddiad

- 1. Crynodeb Gweithredol**
- 2. Pwrpas yr Ymchwiliad**
- 3. Cefndir**
- 4. Deddfwriaeth a Strategaethau Cenedlaethol**
- 5. Polisi Iaith Addysg Gwynedd a Chynlluniau Strategol**
- 6. Cymariaethau Perfformiad Ac Adroddiadau Archwiliadau Allanol**
- 7. Gwaith yr Ymchwiliad**
- 8. Argymhellion**
- 9. Adrodd yn ôl**

Cydnabyddiaeth

Yr Atodiadau

Atodiad 1 - Holiadur Penaethiaid Uwchradd

Atodiad 2 – Holiadur Penaethiaid Cynradd

Atodiad 3 – Holiadur Canolfannau Iaith

Atodiad 4 – Holiadur Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith

Atodiad 5 – Holiadur Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor

Atodiad 6 – Astudio Trwy Gyfrwng y Gymraeg

Atodiad 7 - Carfannau Iaith

Atodiad 8 – Gwe Iaith y Tri Dalgylch

Atodiad 9 – Niferoedd - Canolfannau Iaith Cynradd

Atodiad 10 – Niferoedd Canolfannau Iaith Cynradd 2005 - 2015

Atodiad 11 – Canolfan Iaith Cefn Coch

Atodiad 12 – Canolfan Iaith Dolgellau

Atodiad 13 – Canolfan Iaith Llangybi

Atodiad 14 – Canolfan Iaith Maesincla

Atodiad 15 – Niferoedd - Canolfan Iaith Uwchradd

Atodiad 16 – Niferoedd Canolfan Iaith Uwchradd 2005 – 2015

Atodiad 17 – Crynodeb fesul Ysgol yng Nghanolfan Iaith Uwchradd

Atodiad 18 – Tracio Disgyblion Canolfannau Iaith Cynradd

Atodiad 19 – Gwybodaeth Bellach - Canolfan Iaith Uwchradd

Atodiad 20 – Gwersi Cymraeg Rhieni

Atodiad 21- Crynodeb Lefelau a Charfannau Iaith

Atodiad 22 – Lefelau a Charfanau Iaith 2013

Atodiad 23 – Lefelau a Charfanau Iaith 2014

Atodiad 24 – Holiadur Llywodraethwyr

Atodiad 25 – Canlyniadau Holiadur Rhieni

Atodiad 26 – Adroddiad Tystiolaeth Grwpiau Ffocws Disgyblion

Atodiad 27 – Defnydd Iaith Gwersi Uwchradd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â
Debbie Anne Williams Jones
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
LL55 1SH
Rhif ffôn: (01286) 679 267
E-bost: DebbieAnneWilliamsJones@gwynedd.gov.uk
[Tudalen Trosolwg a Chraffu Cyngor Gwynedd](#)

RHAGAIR Y CADEIRYDD

“Mae’n bleser o’r mwyaf gennyf gyflwyno i’ch sylw ffrwyth llafur aelodau gweithgor fu’n ymchwilio i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi iaith Cyngor Gwynedd yn ysgolion y Sir ac i ba raddau mae’r polisi hwnnw’n hybu defnydd cymdeithasol o’r iaith gan ein plant a’n pobl ifanc.

Nid gorchwyl hawdd mohono a bu’n rhaid tyllu’n ddwfn o dan y wyneb i ganfod effaith y polisi iaith ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol. Er y bu’n rhaid cyfyngu ein hymchwil i dair ardal benodol daeth patrwm i’r amlwg y credwn sy’n adlewyrchiad o’r sefyllfa’n draws sirol.

Fel y dengys ein canfyddiadau mae dehongli’r polisi’n amrywio’n arw ac yn ddibynnol ar ddemograffi ieithyddol dalgylchoedd ysgolion yn ogystal ag o ran sêl athrawon a phrifathrawon unigol dros y Gymraeg. Ymddengys nad oes cysondeb nac ychwaith ddealltwriaeth cyffredinol o’r gofynion.

O ganlyniad mae’r gweithgor wedi cynnig ugain o argymhellion y gobeithir fydd yn cael eu mabwysiadu ar fyrder. Cydnabyddir pwysigrwydd allweddol ein hysgolion i barhad y Gymraeg oddi fewn a thu allan i’w llibart - ond nid da lle gellir gwell!

Dymunaf ddiolch o galon am gydweithrediad parod pawb fu’n rhannu o’u profiadau’n agored, proffesiynol a di-flewyn ar dafod. Roedd eu barn a’u tystiolaeth yn anhebgorol. Diolch hefyd i swyddogion y Cyngor fu’n ein cadw ar y llwybr cul a chyfannu ein trafodaethau’n adroddiad cynhwysfawr a chlir. Ac yn olaf diolch i’r cyd-aelodau ar y gweithgor fu’n rhannu’r un weledigaeth a’r un nod o weld y Gymraeg yn cryfhau fel prif iaith cymunedau Gwynedd – a thu hwnt!”

**Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Cadeirydd y Grŵp Ymchwiliad Craffu**

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn asesu

- sut y gweithredir Polisi Iaith yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol,
- y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.

Y bwriad oedd llunio argymhellion ar gyfer gwella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn y dalgylchoedd yn awr ac i'r dyfodol.

Nid oedd modd rhoi sylw i'r holl ysgolion a dalgylchoedd. Bu i'r ymchwiliad ganolbwyntio ar dri dalgylch, sef Ardudwy, Bangor a Botwnnog. Y gobaith oedd bod y dalgylchoedd amrywiol hyn yn gyfrwng i adlewyrchu holl ddalgylchoedd Gwynedd ac y byddai argymhellion yr ymchwiliad yma'n berthnasol i bob ysgol.

Dylid cofio mai ciplun mewn amser ydi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn yn ystod cyfnod yr ymchwiliad craffu os na nodir yn wahanol.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd, a phrif ddogfennau Cyngor Gwynedd a ystyriwyd fel cefndir i'r ymchwiliad craffu ynghyd â deddfwriaeth a strategaethau cenedlaethol. Tynnir sylw at Bolisi Iaith yr Awdurdod, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2014-2017, Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd. Tynnir sylw hefyd at adroddiad a gomisiynwyd gan gwmni Trywydd, sef Adroddiad cynyddu Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant a Phobl Ifanc Ysgolion Uwchradd Gwynedd (Trywydd 2014).

Yn ogystal, tynnir sylw at gymariaethau perfformiad ar draws Gymru ac adroddiadau archwiliadau a gynhaliwyd gan gyrrff allanol ar berfformiad Awdurdodau Lleol. Tynnir sylw hefyd at ystadegau ynglŷn â dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg o'r Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnodau Allweddol 3 a 4 ac adroddiad ESTYN (Tachwedd 2014) ar 'Ddilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog'.

Bu i'r ymchwiliad craffu ystyried tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan benaethiaid yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y tri dalgylch dan sylw ynghyd a thystiolaeth a gyflwynwyd ar lafar mewn cyfweiliadau. Ystyriwyd tystiolaeth ar lafar mewn cyfweiliadau â phenaethiaid yr holl Ganolfannau Iaith yng Ngwynedd a'r Cydlynwyr/Cyd-gysylltwyr Iaith. Yn ogystal ystyriwyd tystiolaeth ar lafar mewn cyfweiliad gyda darlithwyr yr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor.

Ystyriwyd yr ymatebion i holiaduron a ddarparwyd ar gyfer rhieni disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd.

Ystyriwyd adroddiad Iaith Cyf. a gynhaliodd grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc yn sampl o ysgolion yn y dalgylchoedd dan sylw.

Ystyriwyd data o nifer o ffynonellau: yr Adran Addysg, Canolfannau Iaith, Cydlynwyr / Cydgysylltwyr Iaith ar lefelau a charfanau iaith y dalgylchoedd a derbyniwyd gwe iaith ar gyfer dalgylchoedd Ardudwy, Bangor a Botwnnog.

1.2 Yn dilyn rhoi ystyriaeth fanwl i'r dogfennau cefndir, y data a'r holl dystiolaeth a gasglwyd gwnaed yr argymhellion canlynol:

Argymhellion mesuradwy	Maes	Cyfrifoldeb	Y Mesur posib / Allbwn
<p>1. Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithog gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg y staff.</p>	Polisi	Adran Addysg	A) Polisi Iaith ddiwygiedig yn ei le.
<p>2. Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei fod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.</p>	Polisi	Adran Addysg (Penaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd)	<p>A) Adran Addysg wedi sicrhau diffiniad ieithyddol safonol ar gyfer pob ysgol uwchradd a'i wneud yn eglur i'r holl randdeiliaid.</p> <p>B) Llywodraethwyr pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant i sicrhau eu dealltwriaeth o ddiffiniad ieithyddol yr ysgolion a gofynion y Polisi Iaith.</p> <p>C) Adran Addysg yn gweithredu trefniadau monitro cadarn er sicrhau fod pob ysgol uwchradd yn cydymffurfio gyda'r</p>

			diffiniad a Pholisi laith (Addysg) y sir.
3. Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i blethu'r polisi i ddatblygu sgiliau dwyieithog hyfedr gyda gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.	Polisi (Gweithredu)	Adran Addysg	A) Gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cyd-fynd â Pholisi laith (Addysg).
4. Dylid sicrhau fod canlyniadau arholiadau Saesneg yr un mor dda â'r Gymraeg, gan mai hyn yn ei dro fydd yn sicrhau llwyddiant y Polisi laith.	Polisi (Gweithredu)		A) Y Llywodraethwyr a'r Cyngor yn monitro canlyniadau arholiadau'n fanwl ac yn rheolaidd.
5. Er mwyn cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion yn unol â'r Polisi laith, dylai Ysgol Friars, gyda chefnogaeth y Cyngor, adnabod cyfleoedd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.	Polisi (Gweithredu)	Ysgol Friars / Adran Addysg	A) Y Cyngor yn cefnogi Ysgol Friars yn rheolaidd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol. B) Y Cyngor wedi sicrhau dealltwriaeth y Llywodraethwyr ac wedi sefydlu trefn fonitro gadarn. C) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi rhaglennu eu gwaith i fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd.
6. Sicrhau bod Llywodraethwyr pob ysgol yng Ngwynedd yn	Hyfforddiant	Adran Addysg	A) Pob Llywodraethwr wedi derbyn hyfforddiant ar

derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi laith.			ofynion y Polisi laith.
7. Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor sicrhau cefnogaeth i athrawon, cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter laith, a derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth laith.	Hyfforddiant	Adran Addysg	A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter laith ac Ymwybyddiaeth laith.
8. Er cysoni gweithrediad Polisi laith (Addysg) y Cyngor ar draws y sir mae angen sicrhau bod holl ysgolion Gwynedd yn cydymffurfio â'r Polisi gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.	Monitro ac atebolrwydd	Adran Addysg	A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn monitro reolaidd. B) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi craffu data perthnasol yn rheolaidd i sicrhau gweithrediad y Polisi laith (Addysg).
9. Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i sefydlu'r arfer bod pob athro pwnc yn y cyfnod cynradd ac uwchradd yn monitro ac yn adrodd ar ddatblygiad sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl mewn adroddiadau cynnydd ac yn trafod eu datblygiad gyda'r disgybl a'u rhieni ar achlysur nosweithiau rhieni.	Monitro ac atebolrwydd	Ysgolion Cynradd / Uwchradd	A) Trefn fonitro yn ei lle ar gyfer pob athro pwnc i baratoi adroddiadau cynnydd (cynradd ac uwchradd) ar ddatblygu sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl. B) Wedi trafod yr adroddiadau cynnydd gyda'r disgybl a'r rhieni.

<p>10. Sicrhau dilyniant ieithyddol cadarn rhwng CA2, CA3, CA4 a CA5 gan weithredu dulliau monitro cyson a phriodol, fyddai hefyd yn tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm.</p> <p>(Argymhelliad Adroddiad ESTYN Tachwedd 2014: “olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy’n dilyn cyrsiau drwy’r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg”.</p>	<p>Monitro ac atebolrwydd</p>	<p>Adran Addysg / Ysgolion Cynradd / Uwchradd</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sicrhau bod trefn gadarn yn ei lle ar gyfer monitro dilyniant ieithyddol a hefyd tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm gan adrodd yn rheolaidd i’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.</p>
<p>11. Dylid sicrhau eglurder a chysondeb yn nulliau addysgu dwyieithog yn yr ysgolion gan feithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff, gan ddiffinio’n eglur yr hyn ydyw dysgu dwyieithog gan fanylu ar:</p> <p>i.) faint o’r Gymraeg a’r Saesneg y dylid ei ddefnyddio i addysgu</p> <p>ii.) iaith ysgrifennu disgyblion mewn gwersi dwyieithog</p> <p>iii.) beth yw’r disgwyliadau o safbwynt defnyddio’r Gymraeg/Saesneg mewn sgysiau a thrafodaethau dosbarth.</p>	<p>Addysgu dwyieithog</p>	<p>Adran Addysg</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant addas ar gyfer Athrawon</p> <ul style="list-style-type: none"> - addysgu dwyieithog - a meithrin sgiliau trawsieithu
<p>12. Sicrhau bod:</p> <p>i) y Siarter iaith yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd</p> <p>ii) arfer dda ar weithredu’r Siarter iaith</p>	<p>Defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg gan blant a phobl ifanc</p>	<p>Cyngor Gwynedd (Adran Addysg / Hunaniaith)</p>	<p>A) Y Cyngor yn monitro’n rheolaidd gweithrediad y Siarter iaith yn ysgolion cynradd y sir, ac yn rhoi</p>

<p>a chefnogi ac annog defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn modd adeiladol yn cael ei rannu rhwng ysgolion</p> <p>iii) gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r we trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi un o amcanion y Siarter Iaith. Dylai ysgolion wneud defnydd mwy helaeth o'r gwefannau, deunyddiau ac adnoddau ar-lein Cymraeg. Dylid cefnogi'r ysgolion i gyflawni hyn, lle bo'n briodol.</p>			<p>cefnogaeth i'r ysgolion.</p> <p>B) Y Cyngor a'r ysgolion yn creu cyfleoedd.</p> <p>C) Y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i'r ysgolion i alluogi disgyblion i wneud mwy o ddefnydd o'r gwefannau ac adnoddau ar-lein Cymraeg.</p>
<p>13. Mae rhai o ddarganfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu yn ymddangos yn adroddiad Trywydd ac argymhellir bod y Cyngor a'r Ysgolion yn gweithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiad.</p>	<p>Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc</p>	<p>Cyngor Gwynedd (Adran Addysg / Hamdden / Gwasanaeth Ieuencid / Hunaniaith)</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithredu i ymateb i argymhellion adroddiad Trywydd.</p>
<p>14. Dylai'r ysgolion gynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am:</p> <p>i.) y Polisi Iaith</p> <p>ii.) y Siarter Iaith</p> <p>iii.) arferion iaith yr ysgol gan sicrhau eu perchnogaeth hwythau ar y polisi. Dylai pob ysgol sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg.</p>	<p>Cynnwys disgyblion</p>	<p>Ysgolion Cynradd /Uwchradd</p>	<p>A) Y disgyblion yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau am y Polisi Iaith, y Siarter Iaith ac arferion iaith yr ysgol.</p> <p>B) Wedi sefydlu trefn i sicrhau perchnogaeth y disgyblion ar y Polisi.</p> <p>C) Wedi sefydlu cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg.</p>

<p>15.Er mwyn cadw myfyrwyr sydd yn ceisio am yr ail radd yng Nghymru dylai'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau lobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd hefyd fel sydd yn digwydd yn Lloegr.</p>	<p>Grant Myfyrwyr</p>		<p>A) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi lobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd.</p>
<p>16.Dylid hyrwyddo a marchnata manteision dwyieithrwydd mewn cydweithrediad gyda phob ysgol ar draws y sir, gyda'r ysgolion hefyd yn marchnata'r manteision rheiny ar eu gwefan, ymysg rhieni a disgyblion.</p>	<p>Manteision dwyieithrwydd</p>		<p>A) Y Cyngor wedi cynnal adolygiad i adnabod cyfleoedd i farchnata manteision dwyieithrwydd.</p> <p>B) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i fonitro bod pob ysgol yn y sir yn marchnata'r manteision hynny ar eu gwefan, ac ymysg rhieni a disgyblion.</p>
<p>17.Dylai'r Cyngor ddathlu llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir (bod canlyniadau profion yn y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd) a sicrhau bod yr holl ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am y llwyddiannau hynny ar wefan yr ysgol.</p>	<p>Manteision dwyieithrwydd</p>		<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i ddathlu llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir yn y dulliau diweddaraf poblogaidd.</p> <p>B) Yr Ysgolion wedi gosod y llwyddiannau ar wefan yr ysgol.</p>
<p>18.Er mwyn cefnogi disgyblion o gartrefi di-gymraeg i arddel y Gymraeg, dylai ysgolion a'r Cyngor ddatblygu dulliau (megis sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith, sgysiau gyda darpar ddisgyblion/rhieni ayyb) i sefydlu agweddau sy'n</p>	<p>Manteision dwyieithrwydd</p>		<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen o sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith.</p> <p>B) Yr Ysgolion wedi sefydlu trefn i gynnal sgysiau gyda darpar ddisgyblion /</p>

rhoi gwerth ar y Gymraeg a dwyieithrwydd. Dylid sicrhau bod arferion da sy'n bodoli eisoes yn cael eu rhannu.			rhieni. C) Y Cyngor wedi rhannu arferion da gyda'r holl ysgolion ar draws y sir.
19. Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor gryfhau'r drefn o sefydlu gofynion ieithyddol swyddi mewn ysgolion wrth benodi staff newydd.	Trefniadau Penodi Staff	Adran Addysg	A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn gadarn ar gyfer penodi staff newydd.
20. Dylid sicrhau fod pob ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r Canolfannau Iaith, gan sicrhau atebolrwydd pob ysgol dros weithredu'r pecynnau ôl-ofal.	Canolfannau Iaith / Monitro ac atebolrwydd	Ysgolion Cynradd / Uwchradd	A) Y Cyngor yn monitro defnydd o'r Canolfannau Iaith a gweithrediad y pecynnau ôl-ofal yn rheolaidd.
21. Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu Canolfan Iaith i Fangor er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi Iaith.	Canolfannau Iaith	Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru	A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu Canolfan Iaith benodol ar gyfer dalgylch Bangor.
22. Sicrhau bod arfer dda yn cael ei rannu rhwng y Canolfannau Iaith a'r ysgolion.	Canolfannau Iaith	Canolfannau Iaith / Ysgolion Cynradd / Uwchradd	A) Y Cyngor a'r Canolfannau Iaith yn rhannu arfer dda gyda'r holl ysgolion yn rheolaidd.
23. Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu darpariaeth addysg drochi benodol ar gyfer Ysgol Ardudwy (ac ysgolion a leolir mewn dalgylchoedd demograffig cyffelyb) er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi	Addysg drochi	Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru	A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu darpariaeth addysg drochi yn Ysgol Ardudwy (ac eraill).

laith.			
24. Dylai'r Cyngor drafod gyda Phrifysgol Bangor, y posibilrwydd o osod safon benodol i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a safon i ddatblygu sgiliau dwyieithog ar gyfer darpar athrawon fel rhan o'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC).	Prifysgol Bangor		A) Y Cyngor wedi trafod ac wedi dod i gytundeb gyda Phrifysgol Bangor.

- 1.3 Mae aelodau'r ymchwiliad craffu yn gwerthfawrogi mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu ond maent yn awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad ar ei ymateb i'r argymhellion yn ei gyfarfod nesaf gydag adroddiad cynnydd ymhen 6 mis.
- 1.4 Cytunwyd i gyflwyno'r adroddiad gerbron y Pwyllgor laith yn dilyn y Pwyllgor Craffu

2. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

2.1 Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu gan y [Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 13 Chwefror 2014](#) er mwyn asesu:

- Sut y gweithredir Polisi Iaith yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol
- Y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl Ifanc (y cyswllt efo'r Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd)

(a) Yn benodol:-

1. Manylu ar weithrediad [Polisi Iaith](#) yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.
2. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisiau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.
3. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "[Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg](#)" ymhob ysgol.
4. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "[Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd](#)"

(b) O ran trefn y gwaith, bwriad yr Ymchwiliad oedd ceisio darlun sirol o'r modd y caiff Polisi Iaith yr Awdurdod ei weithredu fesul dalgylch drwy sefydlu dealltwriaeth o:-

- batrwm ieithyddol o fewn y dalgylch ar sail ystadegau Cyfrifiad ac ysgolion unigol
- strwythur addysgol ardal y dalgylch a chanfyddiad rhieni ac eraill o natur ieithyddol ysgol
- berthynas ysgolion â'i gilydd o safbwynt y Gymraeg
- y defnydd a wneir o'r Canolfannau Iaith
- y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y dosbarth, ar y coridor, yn y ffreutur, ac ar y buarth
- weithgareddau a gynhelir er mwyn dathlu a hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymraeg a Chymreig
- flaenoriaethau strategol ieithyddol ar gyfer yr ardal (yng nghyd-destun datblygiad Strategaeth Iaith Gwynedd)
- y cyd-destun lleol o ran gwaith ieithyddol cymunedol
- cyraeddiadau ieithyddol plant y dalgylch
- arferion da

(c) Llunio argymhellion ar gyfer gwella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn y dalgylch yn awr ac i'r dyfodol

2.2 Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad

Cychwynnodd yr ymchwiliad drwy gynnal trafodaeth gyda'r aelodau ar ddalgylch/oedd y dylai'r ymchwiliad ganolbwyntio arno/nynt. Cydnabu'r

aelodau nad oedd modd i'r ymchwiliad roddi sylw i'r holl ysgolion a dalgylchoedd. Felly, ceisiwyd pennu dalgylchoedd amrywiol i roi sylw iddynt fel rhan o'r ymchwiliad, gyda'r gobaith eu bod yn gyfrwng i adlewyrchu holl ddalgylchoedd Gwynedd, ac felly y byddai argymhellion yr ymchwiliad yma'n berthnasol i bob ysgol.

Yn dilyn cyngor ac arweiniad gan Mr Dewi Jones, Pennaeth Addysg (ar y pryd), cytunwyd y byddai'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar 3 dalgylch, sef:

- Ardudwy
- Bangor
- Botwnnog

Cytunwyd ar raglen waith yr ymchwiliad i gyfarch y briff a sefydlwyd dealltwriaeth o'r cefndir i'r maes drwy dderbyn cyflwyniadau gan y canlynol

Dewi Jones, Pennaeth Addysg (ar y pryd)

- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2013-2017

Debbie Anne Williams Jones, a fu'n gyfrifol am gomisiynu:

- [Aseiad Ardrowiad Ieithyddol Cynllun Trefniadaeth Ysgolion Gwynedd 2008](#)
- [Adroddiad Defnydd Cymdeithasol Plant Cynradd Gwynedd o'r Gymraeg \(2009\)](#)
- [Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd 2014](#)
- Cynllun 'Byw yng Nghymru', Canolfannau Iaith Gwynedd
- Adroddiad Cynyddu Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant a Phobl Ifanc Ysgolion Uwchradd Gwynedd (Trywydd, 2014).¹

Garem Jackson, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg ar

- Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014/15.

2.3 Ymgynghorwyd gyda'r canlynol drwy holiaduron, cyfweiliadau a chyfarfodydd dalgylchol er mwyn sefydlu dealltwriaeth o'r modd y mae Polisi Iaith Addysg y sir yn cael ei weithredu:

- Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Ardudwy, Botwnnog, Friars a Tryfan. **Atodiad 1.**
- Penaethiaid Ysgolion Cynradd Nefyn, Tan y Castell, Dyffryn Ardudwy a Thalsarnau, Cae Top, a Hirael. **Atodiad 2.**
- Penaethiaid Cynradd Dalgylch Bangor. **Atodiad 2.**

¹ Cysylltwch â ni am gopi.

- Penaethiaid Cynradd Dalgylch Botwnnog. **Atodiad 2.**
 - Penaethiaid Canolfannau Iaith Sector Cynradd ac Uwchradd. **Atodiad 3.**
 - Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith Ysgolion Cynradd. **Atodiad 4.**
 - Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith Ysgolion Uwchradd. **Atodiad 4.**
 - Darlithwyr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor. **Atodiad 5.**
- 2.4 Ar gais aelodau'r Ymchwiliad Craffu gwahodddwyd y Cadeirydd ac aelodau Arfon yr ymchwiliad i gyfarfod Penaethiaid Cynradd Dalgylch Bangor. Y bwriad oedd sicrhau cyfle i gael trafodaeth efo holl ysgolion y dalgylch, oherwydd roedd teimlad fod pob ysgol yn wahanol ym Mangor yng nghyd-destun y Polisi Iaith.
- 2.5 Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda Phenaethiaid Ysgolion Cynradd Dyffryn Ardudwy a Thalsarnau, Tanycastell, Hiracl, Cae Top, Nefyn; Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Ardudwy, Botwnnog, Tryfan a Phennaeth a Dirprwy Ysgol Friars.
- 2.6 Ar gais aelodau'r Ymchwiliad Craffu derbyniwyd gwahoddiad i gyfweild penaethiaid ysgolion cynradd dalgylch Botwnnog yn un o gyfarfodydd rheolaidd y dalgylch.
- 2.7 Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda gweithlu'r Canolfannau Iaith (cynradd ac uwchradd), Cyd-gysylltwyr Iaith Cynradd, Cyd-gysylltwyr a Chydlynwyr Iaith Uwchradd mewn tri gwahanol grŵp. Darparwyd data i aelodau'r ymchwiliad craffu am niferoedd oedd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith, lefelau a charfanau iaith disgyblion, ynghyd â'r gwaith tracio cychwynnol.
- 2.8 Ymgynghorwyd gyda rhieni disgyblion drwy holiadur ar-lein ar safle we Cyngor Gwynedd a Gwynedd Ni. Anfonwyd neges at benaethiaid yr ysgolion gyda linc i'r holiaduron ac anfonwyd copi'au caled i'r ysgolion hynny wnaeth gais amdanynt. Yn ogystal, hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar safle we'r Cyngor ac yn y wasg.
- 2.9 Comisiynwyd [Iaith Cyf](#) i gynnal grwpiau ffocws gyda phlant a phobl Ifanc gyda sampl o ysgolion yn y dalgylchoedd dan sylw
- 2.10 Bu ymgynghori gyda Llywodraethwyr ysgolion y dalgylchoedd dan sylw. Cafwyd cydweithrediad yr Adran Addysg i gylchredeg holiadur at Glercod Cyrff Llywodraethu pob un o'r ysgolion yn y 3 dalgylch dan sylw.

3. Cefndir

3.1 Y Gymraeg yng Ngwynedd

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 65.4% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg, y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg o holl siroedd Cymru, ac mae'r iaith yn rhan gwbl greiddiol o fywyd pob dydd yma. Er hyn, dengys Cyfrifiad 2011, bod amrywiaeth eang iawn yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg ar draws y sir, gyda'r canrannau uchaf yn hanu o wardiau Llanrug (87.8%) a Pheblig (87.4%) yng Nghaernarfon. Gwelir y canrannau'n gostwng wrth fynd i gyfeiriad Bangor (36.4%), a'r ardaloedd arfordirol ym Meirionnydd megis Aberdyfi (35.5%). Er hyn, mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli o leiaf 30% o'r boblogaeth barhaol ymhob ward heblaw dwy, sef ward Menai (18.6%) a ward Deiniol (22.8%) ym Mangor.

Dangosodd Cyfrifiad 2011 gynnydd yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg yn y grŵp oedran 3-4 oed a 5-15 oed yng Ngwynedd, sef:

CYFRIFIAD	2001		2011		NEWID	
3-4 oed	1,997	70.9%	1,997	73.0%	0	+2.1%
5-15 oed	14,468	91.8%	13,038	92.3%	-1,430	+0.5%

Mae data Cyfrifiad 2011 Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg fesul oedran. Yn 2011 yr oedd yr wybodaeth ar gyfer dalgylchoedd yr ymchwiliad craffu fel a ganlyn:

Ardal	Nifer yn siarad Cymraeg (3 i 15 oed)	Canran o'r boblogaeth 3 i 15 oed yn siarad Cymraeg
Gwynedd	15,035	89.1
Dalgylch Ardudwy	1,128	90.5
Dalgylch Bangor	1,876	73.3
Dalgylch Botwnnog	1,170	92.6

Ffynhonnell: Tabl KS208 Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol.

3.2 Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd

Yn Rhagfyr 1996, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Gynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ynddo nodir sut y mae'r Cyngor, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Amcanion sylfaenol y Cyngor ynglŷn â'r Gymraeg yw:

- galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd, i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis personol;

- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg ym mywyd ardal y Cyngor gan fod yn angor i'r iaith yn ei hadfywiad ledled Cymru;
- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrrff cyhoeddus sy'n ymwneud â'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardaloedd y Cyngor;
- sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol gweinyddiad mewnol y Cyngor gan ddarparu cyfleusterau hyfforddiant mewn swydd i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

3.3 [Cynllun Strategol y Cyngor 2015-2017](#)

Mae'r Gymraeg yn un o'r prif flaenoriaethau yng Nghynllun Strategol y Cyngor. Drwy gyfrwng y Cynllun Strategol, mae'r Cyngor yn awyddus i weld sefyllfa lle mae Gwynedd yn parhau yn gadarnle i'r iaith Gymraeg, a bod y Gymraeg yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd a lled y sir.

3.4 [Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017](#)

Gweledigaeth y Strategaeth hon yw: "Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Ngwynedd". Yn cyd-fynd â'r weledigaeth, gosodwyd targed meintiol tymor hir yn y Strategaeth Iaith flaenorol, ac ategir y targed meintiol hwn ar gyfer y Strategaeth hon, sef: "Sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2021."

Mae'r Strategaeth wedi ei seilio ar chwe maes strategol, yn cynnwys:

- Maes Strategol 1 Y Teulu
- Maes Strategol 2 Plant a Phobl Ifanc
- Maes Strategol 3 Cymunedau
- Maes Strategol 4 Gwasanaethau Cymraeg
- Maes Strategol 5 Y Gweithle
- Maes Strategol 6 Y Seilwaith

Gweledigaeth Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc yw "Cynyddu defnydd y Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, gwella eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith, ynghyd â sicrhau gwell mynediad at weithgareddau cymdeithasol a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg". Canlyniad y Maes Strategol yma yw "Plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol ac yn gweld gwerth i'r iaith".

4. Deddfwriaeth a Strategaethau Cenedlaethol

4.1 [Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru 2010](#)

Mae'r Strategaeth yma yn adeiladu ar [Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog](#), drwy ganolbwyntio ar ddatblygu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Gweledigaeth y strategaeth ydi "Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle".

Ceir 6 nod strategol yn y ddogfen:

1. Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn-statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni.
2. Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus.
3. Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.
4. Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer digonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, sy'n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu.
5. Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.
6. Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.

Ceir yn y ddogfen hefyd 5 deilliant penodol:

1. Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
3. Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.
5. Mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar dargedau cynnydd ac wedi eu cyflwyno fel rhan o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg i'r Adran Addysg a Sgiliau sy'n eu monitro'n flynyddol.

4.2 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Yr oedd penaethiaid y Canolfannau Iaith o'r farn bod angen cyrsiau / hyfforddiant i athrawon ar ôl ysgol, undydd a diwrnod llawn ar y Siarter Iaith.

7.4 Cyd-gysylltwyr/cydlynwyr Iaith Ysgolion Cynradd

Mae'r cyd-gysylltwyr iaith yn gyfrifol am sicrhau fod y Polisi Iaith yn cael ei weithredu a'i ddatblygu yn yr ysgolion, a bod y disgyblion yn hollol hyfedr yn y ddwy iaith, a bod y dysgwyr yn symud yn gyflym i garfan 'A' yn ieithyddol. Maent hefyd yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am lefelau a charfannau iaith ar ddiwedd blwyddyn 6 a'i drosglwyddo i'r sector uwchradd. Gweler **Atodiad 6- Allwedd Carfannau Iaith, Atodiad 21- Crynodeb Lefelau a Charfannau Iaith, Atodiad 22 – Lefelau a Charfannau Iaith 2013 ac Atodiad 23 – Lefelau a Charfannau Iaith 2014**).

Nodwyd hefyd fod ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau nad yw'r disgyblion yn llithro'n ôl ar ôl cyrraedd Carfan 'A' drwy ymweld â'r ysgol uwchradd ym mis Hydref i weld sut mae'r disgyblion wedi setlo ac i sicrhau eu bod yn dilyn y trac ieithyddol cywir. Cynhelir sgwrs anffurfiol gyda'r ysgolion ynglŷn â chynnydd ieithyddol y tu hwnt i Flwyddyn 7. Byddir hefyd yn rhannu arferion da, adnoddau a syniadau o fewn cyfarfodydd.

Deallwyd nad rôl y Cydlynwyr Iaith yw herio ysgolion ac mai rôl GwE a'r Awdurdod yw hynny. Ceisir cydweithio gyda'r ysgolion er sicrhau perthynas dda.

Nodwyd fod y dalgylchoedd yn amrywio gydag amrywiaeth o fewn pocedi o'r sir gyda rhai ardaloedd yn derbyn nifer o fewnfudwyr o Ewrop lle nad oes gan y disgyblion ddefnydd o'r Saesneg na'r Gymraeg. Ceisir sicrhau bod y disgyblion hyn yn cyrraedd Lefel 3 cadarn mewn ysgrifennu.

Bydd rhan fwyaf o ddisgyblion y cynradd yn cyrraedd yr uwchradd gyda Lefel 4 cadarn yn y Gymraeg, ac maent ar ddeall bod 70% o'r gwersi CA3 drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd yr angen i sicrhau a chysoni tracio o'r Cynradd i'r Uwchradd ar draws Gwynedd.

Yr oedd barn unfrydol bod y Canolfannau Iaith yn llwyddo yn enwedig gyda'r sector cynradd gyda'r camau ôl-ofal yn effeithiol dros ben. Cafwyd enghreifftiau o lwyddiannau disgyblion sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith o wledydd eraill ac erbyn hyn yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yr oedd barn gref bod y Siarter Iaith yn llwyddiannus gan arwain at weithredu nod gyffredin rhwng yr ysgolion.

Nodwyd fod rhai dalgylchoedd o dan bwysau gan rieni i ddarparu taflenni gwaith dwyieithog ar gyfer y disgyblion.

Deallwyd bod rhieni yn hollol hapus pan fo'r plant yn siarad Saesneg a Saesneg gystal â'i gilydd.

7.5 Cyd-gysylltwyr/Cydlynwyr Iaith Ysgolion Uwchradd

Mae'r cydlynwyr iaith yn gyfrifol am fonitro carfanau iaith a sicrhau bod disgyblion ar y trac ieithyddol cywir.

Roedd y Cydlynwyr Iaith o'r farn gref bod angen i'r Polisi Iaith fod yn fwy cadarn oherwydd bod ei ddehongliad yn amrywio mewn gwahanol ysgolion. Mae'r amrywiaethau yng ngweithrediad y Polisi yn creu'r argraff i rieni sydd yn symud i'r ardal bod rhai ysgolion yn fwy Cymraeg/Seisnigaidd na'i gilydd. Nodwyd fod y label o bolisi 'dwyieithog', sef y gallu i gyfathrebu yn y ddwy iaith fel ei gilydd, yn cael ei gam ddehongli gan leygwyr a'u bod yn dueddol i gredu mai dwyieithog yw cynnig gwersi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae lle i addysgu'r Llywodraethwyr ar eu cyfrifoldebau.

Roedd y Cydlynwyr Iaith yn unfrydol eu barn bod yr ysgolion uwchradd yn llwyddiannus o ran sicrhau parhad yn nhrac ieithyddol y disgyblion o CA2 i CA3. Er hynny, nodwyd fod rhai disgyblion yn dewis eistedd arholiadau trwy gyfrwng y Saesneg. Deallwyd bellach nad oes tracio pa gyfrwng iaith mae'r disgyblion yn sefyll eu harholiadau, ac yn sgil hynny, nodwyd pryder y gallai rhai disgyblion sefyll arholiad yn y Gymraeg fel pwnc yn unig. Nodwyd fod rhai disgyblion yn dewis eistedd rhai pynciau e.e. Gwyddoniaeth a Mathemateg

trwy gyfrwng y Saesneg, a theimlwyd bod angen bod yn fwy cadarn, gan fod pob disgybl wedi derbyn addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly ac nid oes rheswm pam na ellir parhau drwy'r uwchradd yn y pynciau yma.

Yr heriau a wynebier yw cynnal yr iaith Gymraeg, parhau gyda'r Siarter Iaith yn y sector cynradd a chydweithio gyda rhieni di-gymraeg. Cydnabyddir bod angen bod yn greadigol i gynnig profiadau a ffyrdd newydd o ran y ddarpariaeth. Nodwyd yr angen i gael cefnogaeth yr awdurdod oherwydd ni all ysgolion newid y sefyllfa ar eu pen eu hunain.

Cadarnhawyd y pwysigrwydd o sicrhau bod y Saesneg gystal â'r Saesneg yn Lloegr ac mae angen ymfalchïo bod profion Saesneg yn gyfartal â Lloegr. Gwelir yr angen i geisio cael rhieni di-gymraeg yn gefnogol i'r iaith Gymraeg a marchnata'r Gymraeg yn well drwy amrywiaeth o gyfryngau.

7.6 Cyfarfod gyda Swyddogion Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor

Gobaith yr Ysgol Addysg ydi cynhyrchu'r athrawon gorau ar gyfer Gwynedd. Adroddwyd bod cyrsiau hyfforddi athrawon angen TGAU gradd B mewn iaith Saesneg a Mathemateg, ond gradd C neu uwch sydd ei angen yn y Gymraeg. Nodwyd y byddai nifer llai o fyfyrwyr ar y cyrsiau pe penderfynir gosod gofyn am radd B yn y Gymraeg hefyd – byddai hyn yn ei dro yn arwain at brinder athrawon.

Nododd swyddogion yr Ysgol Addysg fod addysgu dwyieithog a dulliau addysgu dwyieithog yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae darpariaeth yn ystod eu hamser fel darpar athrawon yn yr ysgolion yn cynnwys y gefnogaeth o gwmpas yr ysgol, datblygiad iaith ar y buarth a gwersi. Nid yw'r Brifysgol yn hyrwyddo un dull o addysgu dwyieithog gan fod rhaid i'r myfyrwyr ddilyn polisi iaith yr ysgol unigol – cyfrifoldeb yr ysgol unigol yw gosod y disgwyliadau mewn perthynas ag addysgu dwyieithog myfyrwyr. Mae'r Brifysgol mewn partneriaeth gyda'r ysgolion i hyfforddi darpar athrawon ac mae safonau mae'n rhaid i'r myfyrwyr gyrraedd o ran profiad o ddatblygu sgiliau plant heb y Gymraeg na'r Saesneg. Deallwyd bod angen cyrraedd â'r safonau ar gyfer derbyn Statws Athro Cymwysedig (SAC) ond nid oes gofyn penodol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg plant. Awgrymwyd bod angen creu safon i athro ddatblygu sgiliau dwyieithog.

Defnyddir gwahanol fodelau dysgu gan yr Ysgol Addysg: un grŵp Cymraeg, un di-gymraeg ar wahân. Rhai yn defnyddio 'PowerPoint' ac yn trawsieithu ac eraill yn cyflwyno drwy'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd a dyma'r modelau mae'r Brifysgol yn ymarfer. Deallwyd bod Cynllun Colegau Cymru yn hyfforddi myfyrwyr drwy ddefnyddio modiwlau ar gyfer addysgu'n ddwyieithog.

Mae disgwyl i bob athro nawr gynnal y cofrestru yn y bore drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio termau dwyieithog.

O ran y gefnogaeth sydd ar gael i ddarpar athrawon Cynradd, bydd y Darlithydd Cymraeg ail iaith yn cynnal sesiynau gloywi iaith a sesiynau

Cymraeg Achlysurol ar gyfer darpar athrawon heb y Gymraeg. Ar gyfer y darpar athrawon sy'n dilyn y cwrs dwyieithog darperir hyfforddiant mewn agweddau ieithyddol ar addysgu'n ddwyieithog mewn un sesiwn yr wythnos.

Yn gyffredinol, bydd myfyrwyr yn dod i sesiynau gloywi iaith ac wrth eu bodd. Maent yn dweud eu bod eisiau'r gefnogaeth. Adroddwyd bod rhai siaradwyr Cymraeg yn dewis astudio'r cwrs drwy gyfrwng y Saesneg am wahanol resymau - diffyg hyder, eisiau symud i Loegr, ayyb.

Mewn ymateb i sylwadau a glywyd gan rai penaethiaid ysgolion am safon iaith athrawon newydd, adroddodd swyddogion yr Ysgol Addysg ar y broses mynediad. Mae'r broses yn cynnwys profion mynediad sydd yn cael eu monitro gydag asesiad ar y cychwyn ac ar ddiwedd y cwrs. Trafferthion atalnodi sydd yn codi'i ben ran amlaf a byddir yn helpu'r myfyrwyr hyn.

Mae'r Brifysgol wrthi'n gwerthuso Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd i weld pa mor llwyddiannus ydyw. Mantra'r Siarter Iaith ydi 'Tân yn eu boliau' ac mae'n ymddangos bod pobl wedi pleidleisio efo'u traed drwy fod eisiau gwneud y cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgolion lleol a'r Brifysgol yn gwneud eu gorau a'r plant eisiau dysgu Cymraeg. Clywyd bod angen normaleiddio'r Gymraeg ac i bobl arfer ei chlywed fel na fydd ofn y Gymraeg gan bobl.

I sicrhau llwyddiant Polisi Iaith Cyngor Gwynedd, adroddodd swyddogion yr Ysgol Addysg ei bod yn bwysig iawn sicrhau bo disgyblion yn cyrraedd y lefelau disgwylidig ac ar yr un lefel yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac o safon uwch yng Ngwynedd na gweddill Cymru. Nodwyd yr angen i fod yn ymwybodol o'r plentyn unigol bob tro a rhaid bod yn fwy gofalus efo'r rhai nad ydynt efo'r un gallu.

7.7 Ymgynghori efo Llywodraethwyr

Ni dderbyniwyd digon o ymatebion i holiaduron y Llywodraethwyr (**Atodiad 24**) fyddai'n ein galluogi i ddehongli eu barn. Er hynny, yr oedd penaethiaid yr ysgolion o'r farn bod y rhan fwyaf o'r Llywodraethwyr yn gefnogol i'r iaith Gymraeg ond nid ydyw hyn yn wir ar draws y sir. Deallwyd y ceir Llywodraethwr penodedig yn gyfrifol am y Gymraeg ond nid yw'r term pencampwr yn cael ei ddefnyddio yn aml. 'Awgrymwyd bod lle i addysgu Llywodraethwyr am eu cyfrifoldebau, ac ar ofynion y Polisi Iaith a'u dal yn gyfrifol am weithrediad y Polisi.

7.8 Barn Rhieni

Ymgynghorwyd gyda rhieni disgyblion drwy holiadur ar-lein ar safle we Cyngor Gwynedd a Gwynedd Ni. Anfonwyd neges at benaethiaid yr ysgolion gyda linc i'r holiaduron ac anfonwyd copïau caled i'r ysgolion hynny wnaeth gais amdanynt. Yn ogystal, hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar safle we'r Cyngor ac yn y wasg.

Cwblhawyd y gwaith yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2015.

Derbyniwyd 233 holiadur ar draws y tri dalgylch. Mae'r tabl isod sydd yn dangos nifer yr holiaduron a dderbyniwyd fesul dalgylch a'r canran o ymatebion yn erbyn poblogaeth ysgolion yn nalgylchoedd Ardudwy, Bangor a Botwnnog.

	Dalgylch Ardudwy	Dalgylch Bangor	Dalgylch Botwnnog	Tu allan i ddalgylchoedd yr ymchwiliad craffu
Rhieni gyda phlant yn y Cynradd yn unig	22	51	31	5
Rhieni gyda phlant yn yr Uwchradd yn unig	1	37		8
Rhieni gyda phlant yn y Cynradd a'r Uwchradd	11	54	10	0
Heb enwi ysgol	-	-	1	2
Cyfanswm Holiaduron	34	141	50	8
Canran ymatebion yn erbyn poblogaeth ysgolion	0.04%	0.05%	0.04%	

Mae dadansoddiadau o'r ymatebion i'r holiaduron ar gyfer rhieni i'w gweld yn **Atodiad 25 – Canlyniadau Holiadur Rhieni**

Nifer fechan o holiaduron a dderbyniwyd ar gyfer y tair ardal a dylid cofio nad yw'n gynrychioladol o rieni'r ardaloedd hyn. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y rhieni yn amrywio. Casglwyd bod y mwyafrif wedi'u hargyhoeddi o fanteision addysg ddwyieithog i'w plant, gyda nifer fechan o'r farn y dylai'r polisi alluogi ysgolion i addysgu trwy gyfrwng y Saesneg, gan ddysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig.

Gweler bod yr wybodaeth a dderbyniwyd gan rieni dalgylch Bangor yn dangos lefel is o ymwybyddiaeth o Bolisi Iaith yr Ysgol, y Siarter Iaith a manteision dwyieithrwydd. O safbwynt y cwestiwn 'A ydych yn credu fod ysgolion yn

Ilwyddo i gyflawni'r nod o sicrhau bod gan ddisgyblion sgiliau / allu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg?' gwelwyd bod nifer sylweddol is yn nalgylch Bangor yn credu bod yr ysgolion yn llwyddo i gyflawni'r nod hwn.

Polisi Iaith

Gofynnwyd: 'A ydych yn ymwybodol o Bolisi iaith yr Ysgol ac yn ei ddeall?'. Dengys y canlyniadau fod 77.68% o rieni wnaeth ateb y cwestiwn yn ymwybodol o Bolisi iaith yr ysgol. O ran y dalgylchoedd unigol dan sylw, yr oedd y canrannau canlynol wnaeth ateb y cwestiwn yn ymwybodol o Bolisi iaith yr Ysgol ac yn ei ddeall:

85% - dalgylch Ardudwy
71% - dalgylch Bangor
88% - dalgylch Botwnnog

Manteision Dwyieithrwydd

Yr oedd 83.69% o'r holl rieni wnaeth ateb y cwestiwn perthnasol yn yr holiadur wedi'u hargyhoeddi o fanteision addysg ddwyieithog i'w plant. O ran y dalgylchoedd unigol dan sylw, yr oedd y canrannau canlynol wnaeth ateb y cwestiwn yn ymwybodol o fanteision addysg ddwyieithog:

85% - dalgylch Ardudwy
80% - dalgylch Bangor
90% - dalgylch Botwnnog

Siarter Iaith

Yr oedd yr holiadur ar gyfer y rhieni yn gofyn y cwestiwn "A ydych yn ymwybodol o'r Siarter iaith sydd yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd?". (Nid oedd disgwyl i rieni oedd efo plant yn yr ysgolion uwchradd yn unig fod yn ymwybodol o'r Siarter iaith). Mae'r ffigyrau isod yn cynnwys ymatebion rhieni a oedd gyda phlant yn yr ysgolion cynradd yn unig. Ar draws y tri dalgylch yr oedd 57.51% yn ymwybodol o'r Siarter iaith. O ran y dalgylchoedd unigol dan sylw, yr oedd y canrannau canlynol yn ymwybodol o'r Siarter iaith sydd yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd:

71% - dalgylch Ardudwy
52% - dalgylch Bangor
62% - dalgylch Botwnnog

Cefnogaeth gan yr ysgolion

Ar draws y tri dalgylch mae'r canlyniadau canlynol yn dangos faint a sut mae'r ysgolion yn helpu rhieni i gefnogi eu plant i gyrraedd y lefelau disgwylidig yn y Gymraeg a'r Saesneg:

	Ymatebion	Nifer holiaduron - 233
Darparu gwybodaeth ar lafar neu ohebiaeth ar fanteision dwyieithrwydd	105	45.06%
Cynnal trafodaethau ar y lefelau disgwylidig mae angen i'm plentyn / plant gyrraedd	142	60.94%
Cynnal trafodaethau am y cymorth yr wyf angen er mwyn helpu fy mhentyn / mhlant i gyrraedd y lefelau disgwylidig	97	41.63%
Arall	52	22.32%

Gwelwyd bod rhieni wedi cael cyfle i drafod y materion isod sy'n ymwneud â'r Gymraeg gyda'r ysgolion:

	Ymatebion	Nifer holiaduron - 233
Y gefnogaeth sydd ar gael i'm plentyn / plant yn y Canolfannau Iaith	30	12.88%
Y gefnogaeth sydd ar gael i'm plentyn / plant yn yr ysgol	55	23.61%
Sgiliau Cymraeg fy mhentyn / mhlant	113	48.50%
Gwersi Cymraeg lleol ar gyfer rhieni	34	14.59%
Polisi Iaith yr Ysgol	71	30.47%
Y Siarter Iaith sydd gan yr ysgolion cynradd	46	19.74%
Addysgu Cymraeg fel pwnc	61	26.18%
Addysgu pynciau eraill drwy'r iaith Gymraeg	60	25.75%
Arall	48	20.60%

Sgiliau / gallu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg

Ar draws y tair ardal yr oedd y data ar gyfer y cwestiwn 'A ydych yn credu fod ysgolion yn llwyddo i gyflawni'r nod o sicrhau bod gan ddisgyblion sgiliau / allu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg?' yn dangos bod 39.91% yn credu bod yr ysgolion yn llwyddo, gyda 41.20% ddim yn credu, a 14.16% ddim yn gwybod a 4.72% heb ateb.

O ran y dalgylchoedd unigol yr oedd y canrannau canlynol yn credu bod yr ysgolion yn llwyddo i gyflawni'r nod o sicrhau bod gan ddisgyblion sgiliau /allu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg:

	Dalgylch Ardudwy	Dalgylch Bangor	Dalgylch Botwnnog	Tu allan i ddalgylchoedd yr ymchwiliad craffu
Credu bod llwyddiant	41%	34%	56%	43%
Dim yn credu bod llwyddiant	38%	48%	24%	57%
Ddim yn gwybod / heb ateb	21%	18%	20%	0%

Dadansoddiad o'r sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd

Dalgylch Ardudwy

Nifer fechan o sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd gan rieni dalgylch Ardudwy.

- Derbyniwyd 6 sylw ynglŷn â gweld manteision dysgu Cymraeg a 6 sylw y dylid addysgu trwy gyfrwng y Saesneg a dysgu Cymraeg fel pwnc. Pryder y rhieni yw bod pynciau fel mathemateg a rhai pynciau eraill yn dioddef yn sgil addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwnaed 3 sylw y dylid rhoi dewis i'r plant ai Cymraeg neu Saesneg y dymument dderbyn eu haddysg.

Dalgylch Bangor

- Yr oedd 32 sylw yn cytuno / gweld manteision dysgu dwyieithog.
- Gwnaed 17 sylw bod angen hyrwyddo'r Gymraeg, manteision dwyieithrwydd a datblygu hyder yn nefnydd o'r Gymraeg a gwneud gweithgareddau Cymraeg hwyliog/hyrwyddo'r Urdd.
- Gwnaed 16 sylw bod angen cryfhau Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a sicrhau bod pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn y Polisi.

- Gwnaed 11 sylw bod y rhieni yn hapus neu'n hapus iawn gyda datblygiad eu plant.
- Derbyniwyd 14 sylw ynglŷn â'r angen i roi dewis i'r plant ai Cymraeg neu Saesneg y dymument dderbyn eu haddysg.
- Yr oedd 9 sylw bod gormod o ffocws ar y Gymraeg ac ni ddylid gorfodi'r Gymraeg.
- Derbyniwyd 5 sylw negyddol am y Polisi Iaith.
- Gwnaed 10 sylw bod angen sicrhau cyfartaledd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Derbyniwyd 7 sylw bod angen cychwyn gwersi Saesneg yn gynt yn y Cynradd.
- Gwnaed 7 sylw y dylid addysgu Mathemateg, Gwyddoniaeth a rhai pynciau eraill trwy gyfrwng y Saesneg.
- Derbyniwyd 5 sylw y dylid cynnal gwersi trwy gyfrwng y Saesneg a dysgu Cymraeg fel pwnc yn unig.
- Gwnaed 5 sylw bod y Gymraeg yn rhan hanfodol o ddiwylliant Cymru.
- Derbyniwyd 5 sylw y dylai bod holl staff a gwirfoddolwyr yr ysgolion fod yn siarad Cymraeg efo'r plant a gwella safon Cymraeg yr athrawon.
- Derbyniwyd 6 sylw ynglŷn â bod rhieni angen help a gwybodaeth yn ddwyieithog i'w galluogi i helpu eu plant.

Dalgylch Botwnnog

- Derbyniwyd 32 sylw yn cefnogi addysg ddwyieithog
- Yr oedd 8 sylw yn dweud bod gormod o ffocws ar y Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei wthio gyda'r Saesneg yn cael ei israddio a bod angen hybu'r Saesneg hefyd.
- Gwnaed 5 sylw bod angen gwella Cymraeg y plant ac angen mwy o Gymraeg ar y buarth.
- Gwnaed 3 sylw bod angen i bob ysgol weithredu'r Polisi Iaith yn llawn a dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r Polisi

Sylwadau tu allan i ddalgylchoedd briff yr ymchwiliad craffu:

- Derbyniwyd 8 sylw bod angen cryfhau a chefnogi'r Polisi Iaith a sicrhau bod pob ysgol yn ei ddilyn.
- Gwnaed 3 sylw nad ydi'r Polisi Iaith gyfredol yn ddwyieithog a bod angen hybu'r Saesneg hefyd.

7.9 Barn plant a phobl ifanc

Comisiynwyd IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith i gynnal grwpiau ffocws gyda disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn casglu gwybodaeth am eu profiadau a barn am addysg Gymraeg a'u defnydd o'r iaith o fewn yr ysgol. Cwblhawyd y gwaith yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2015.

Cynhaliwyd cyfanswm o 18 o grwpiau ffocws (gweler **Atodiad 26**) gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2), CA2 (Blwyddyn 6), CA3 (Blwyddyn 9¹) a CA4 (Blwyddyn 10²) mewn chwe ysgol gynradd a phedair ysgol uwchradd.

Dewiswyd yr ysgolion gan swyddogion y Cyngor mewn ymgynghoriad efo aelodau'r ymchwiliad craffu i gynnig amrediad yn y sampl o ran maint yr ysgol, ardal a phroffil ieithyddol y disgyblion a'r gymuned leol, fel a ganlyn:

Dalgylch Ardudwy

- Ysgol Cefn Coch
- Ysgol Tan y Castell
- Ysgol Ardudwy

Dalgylch Bangor

- Ysgol Glancegin
- Ysgol Cae Top
- Ysgol Tryfan
- Ysgol Friars

Dalgylch Botwnnog

- Ysgol Nefyn
- Ysgol Sarn Bach
- Ysgol Botwnnog

Dewiswyd y disgyblion ar hap ar y cyd rhwng yr ysgolion a thîm IAITH. Cyfrannodd 63 disgybl i'r grwpiau ffocws cynradd. Roedd 38 ohonynt yn ferched a 25 yn fechgyn. Daeth 20 o'r disgyblion cynradd o gartrefi Saesneg³, 16 o gartrefi Cymraeg; a 27 o gartrefi dwyieithog⁴. O'r 50 disgybl uwchradd, roedd 25 geneth a 25 bachgen. Daeth 26 ohonynt o gartrefi Cymraeg, 15 o gartrefi Saesneg; a naw o gartrefi dwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Cynhaliwyd pob grŵp ffocws trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda chaniatâd y cyfranogwyr, gwnaed recordiad sain o'r drafodaeth fel sail i'r cofnod ysgrifenedig.

Paratowyd cyfres o gwestiynau a gweithgareddau i ysgogi trafodaeth a chofnodi arferion iaith, canfyddiadau a barn y disgyblion am:

- batrymau defnydd iaith yn yr ysgol;
- canfyddiadau am eu gallu a'u hyder yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- canfyddiadau am fanteision dwyieithrwydd / amlieithrwydd;
- ymwybyddiaeth a chyfranogiad i'r Siarter Iaith a dylanwad hynny arnynt.

Tra bo cwestiynau craidd y grwpiau ffocws yn gyson i bob grŵp, addaswyd y cwestiynau a'r tasgau i gyd-fynd ag oedran y disgyblion. Mae crynodeb o'r data a gasglwyd, fesul ysgol a chyfnod allweddol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Dylid cofio bod y dystiolaeth a gasglwyd gan y disgyblion yn dystiolaeth hunan-adroddedig. Er eu bod wedi cael eu dewis ar hap, nid yw'r disgyblion o reidrwydd yn gynrychioladol o boblogaeth yr ysgol. Yn ogystal, dylid ystyried nad yw'r disgyblion wedi rhoi darlun llawn a manwl o bob agwedd ar ddefnydd iaith yn yr ysgol o fewn cyfyngderau trafodaeth grŵp ffocws. Lle bo dyfyniadau o eiriau'r disgyblion, nid ydym wedi cywiro unrhyw wallau ieithyddol.

Mae'r data o'r 18 grŵp ffocws a gynhaliwyd mewn chwech ysgol gynradd a phedair ysgol uwchradd gyda disgyblion CA1, CA2, CA3 a CA4 yn cynnig cipolwg o safbwynt y disgyblion ar rai o'r materion sy'n ymwneud â gweithrediad polisi iaith y Cyngor.

Tra bod y penaethiaid ac athrawon yn medru, ac yn arddel, y Gymraeg, ceir nifer o ysgolion ble mae amgylchedd ieithyddol Gymraeg yr ysgol yn cael ei ddylanwadu gan ddiffyg gallu Cymraeg rhai cymorthyddion a staff eraill. Gellid cryfhau amgylchedd Cymraeg rhai ysgolion trwy gynnig cefnogaeth i staff presennol i ddysgu'r Gymraeg ac i sefydlu gofynion ieithyddol swyddi wrth benodi staff newydd.

Yn y grwpiau cynradd, casglwyd tystiolaeth am brif batrwm defnydd iaith y dosbarth cyfan. Yn y grwpiau uwchradd, gofynnwyd i bob disgybl gofnodi ei brofiad unigol o (d)defnydd iaith yn ei (g)wersi mathemateg, gwyddoniaeth a gwersi eraill. Gweler y tablau Defnydd Iaith Gwersi Uwchradd yn **Atodiad 27** sydd yn cynnig darlun manwl fesul ysgol, o ddwyieithrwydd ar waith wrth ddysgu ac addysgu.

Mae'r arfer o siarad Saesneg gyda ffrindiau a phob cyfle tu hwnt i'r dosbarth yn gryf iawn gan rhai disgyblion ac mewn rhai ysgolion yn fwy na'i gilydd. Mae'r duedd i blant o deuluoedd di-Gymraeg, yn enwedig, i gyfyngu eu defnydd o'r Gymraeg i ystod o gyd-destunau addysgu cyfyngedig yn ffenomenon gyffredin. Dengys ymchwil fod tuedd i fechgyn, yn enwedig, ymwrthod ag ymddygiad (gan gynnwys ymddygiad ieithyddol) sy'n cael ei orfodi arnynt gan bobl mewn awdurdod a bod hyn yn dwysáu yn ystod cyfnod yr arddegau.

Ar y cyfan, roedd y disgyblion yn gefnogol o'r Gymraeg. Awgryma data'r grwpiau ffocws bod gwerthoedd negyddol tuag at y Gymraeg gan rai disgyblion mewn rhai ysgolion. Amlygwyd yn ogystal nad yw disgyblion o reidrwydd yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am y Siarter Iaith nac yn cael cynnig eu syniadau eu hunain dros arferion ieithyddol yr ysgol. Gwelwyd hefyd bod beirniadu a chosbi disgyblion am siarad Saesneg yn wrthgynhyrchiol. Buasai cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith a chynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am arferion iaith yn yr ysgol yn fodd o ymateb i unrhyw werthoedd negyddol ac i feithrin perchnogaeth y disgyblion ar bolisi iaith yr ysgol.

Cymharol fychan yw'r nifer o ddisgyblion sy'n ystyried bod ganddynt sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob agwedd o'u bywydau. Nid yw hyn o reidrwydd yn arwydd o ddiffyg llwyddiant y Polisi Iaith. Caiff sgiliau ieithyddol disgyblion eu hogi trwy arferion cymdeithasol beunyddiol tu hwnt i'r ysgol yn

ogystal â'u profiadau addysgol. Di-sail yw'r rhagdybiaeth y dylai pob person dwyieithog feddu ar yr un 'lefel' yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob cyd-destun megis y byddai unigolyn uniaith Saesneg.

Cymysg yw'r defnydd o'r Gymraeg a Saesneg wrth addysgu a dysgu, gyda rhai ysgolion a rhai athrawon yn gwneud mwy o ddefnydd o'r ddwy iaith na'i gilydd. Rhaid wrth ymchwil mwy manwl i gyfrannu i'r drafodaeth am ddiffinio yr hyn a olygir wrth addysg ddwyieithog a gwirio i ba raddau y mae athrawon yn trawsieithu'n fwriadol ac effeithiol i ddatblygu medrau dwyieithog pob disgybl.

Gwnaed nifer o argymhellion gan Y Ganolfan Cynllunio Iaith ac maent wedi eu hymgorffori yn argymhellion yr adroddiad hwn.

8. Argymhellion

Yn dilyn rhoi ystyriaeth fanwl i'r dogfennau cefndir, y data a'r holl dystiolaeth a gasglwyd gwnaed yr argymhellion canlynol:

Argymhellion mesuradwy	Maes	Cyfrifoldeb	Y Mesur posib / Allbwn
1. Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithog gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg y staff.	Polisi	Adran Addysg	A) Polisi Iaith ddiwygiedig yn ei le.
2. Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei fod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn	Polisi	Adran Addysg (Penaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd)	A) Adran Addysg wedi sicrhau diffiniad ieithyddol safonol ar gyfer pob ysgol uwchradd a'i wneud yn eglur i'r holl randdeiliaid. B) Llywodraethwyr pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant i

<p>atebol am ei weithrediad.</p>			<p>sicrhau eu dealltwriaeth o ddiffiniad ieithyddol yr ysgolion a gofynion y Polisi laith.</p> <p>C) Adran Addysg yn gweithredu trefniadau monitro cadarn er sicrhau fod pob ysgol uwchradd yn cydymffurfio gyda'r diffiniad a Pholisi laith (Addysg) y sir.</p>
<p>3. Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i blethu'r polisi i ddatblygu sgiliau dwyieithog hyfedr gyda gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.</p>	<p>Polisi (Gweithredu)</p>	<p>Adran Addysg</p>	<p>A) Gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cyd-fynd â Pholisi laith (Addysg).</p>
<p>4. Dylid sicrhau fod canlyniadau arholiadau Saesneg yr un mor dda â'r Gymraeg, gan mai hyn yn ei dro fydd yn sicrhau llwyddiant y Polisi laith.</p>	<p>Polisi (Gweithredu)</p>		<p>A) Y Llywodraethwyr a'r Cyngor yn monitro canlyniadau arholiadau'n fanwl ac yn rheolaidd.</p>
<p>5. Er mwyn cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion yn unol â'r Polisi laith, dylai Ysgol Friars, gyda chefnogaeth y Cyngor, adnabod cyfleoedd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a</p>	<p>Polisi (Gweithredu)</p>	<p>Ysgol Friars / Adran Addysg</p>	<p>A) Y Cyngor yn cefnogi Ysgol Friars yn rheolaidd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.</p>

bywyd yr ysgol.			<p>B) Y Cyngor wedi sicrhau dealltwriaeth y Llywodraethwyr ac wedi sefydlu trefn fonitro gadarn.</p> <p>C) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi rhaglennu eu gwaith i fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd.</p>
6. Sicrhau bod Llywodraethwyr pob ysgol yng Ngwynedd yn derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi Iaith.	Hyfforddiant	Adran Addysg	A) Pob Llywodraethwr wedi derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi Iaith.
7. Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor sicrhau cefnogaeth i athrawon, cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter Iaith, a derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith.	Hyfforddiant	Adran Addysg	A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter Iaith ac Ymwybyddiaeth Iaith.
8. Er cysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor ar draws y sir mae angen sicrhau bod holl ysgolion Gwynedd yn cydymffurfio â'r Polisi gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.	Monitro ac atebolrwydd	Adran Addysg	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn monitro reolaidd.</p> <p>B) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi craffu data perthnasol yn rheolaidd i sicrhau gweithrediad y Polisi Iaith (Addysg).</p>
9. Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y	Monitro ac atebolrwydd	Ysgolion Cynradd / Uwchradd	A) Trefn fonitro yn ei lle ar gyfer pob athro pwnc i baratoi

<p>Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i sefydlu'r arfer bod pob athro pwnc yn y cyfnod cynradd ac uwchradd yn monitro ac yn adrodd ar ddatblygiad sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl mewn adroddiadau cynnydd ac yn trafod eu datblygiad gyda'r disgybl a'u rhieni ar achlysur nosweithiau rhieni.</p>			<p>adroddiadau cynnydd (cynradd ac uwchradd) ar ddatblygu sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl.</p> <p>B) Wedi trafod yr adroddiadau cynnydd gyda'r disgybl a'r rhieni.</p>
<p>10. Sicrhau dilyniant ieithyddol cadarn rhwng CA2, CA3, CA4 a CA5 gan weithredu dulliau monitro cyson a phriodol, fyddai hefyd yn tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm.</p> <p>(Argymhelliad Adroddiad ESTYN Tachwedd 2014: "olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg".</p>	<p>Monitro ac atebolrwydd</p>	<p>Adran Addysg / Ysgolion Cynradd / Uwchradd</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sicrhau bod trefn gadarn yn ei lle ar gyfer monitro dilyniant ieithyddol a hefyd tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm gan adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.</p>
<p>11. Dylid sicrhau eglurder a chysondeb yn nulliau addysgu dwyieithog yn yr ysgolion gan feithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff, gan ddiffinio'n eglur yr hyn ydyw dysgu dwyieithog gan fanylu ar:</p> <p>i.) faint o'r Gymraeg a'r Saesneg y dylid ei ddefnyddio i addysgu ii.) iaith ysgrifennu</p>	<p>Addysgu dwyieithog</p>	<p>Adran Addysg</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant addas ar gyfer Athrawon</p> <ul style="list-style-type: none"> - addysgu dwyieithog - a meithrin sgiliau trawsieithu

<p>disgyblion mewn gwersi dwyieithog iii.) beth yw'r disgwyliadau o safbwynt defnyddio'r Gymraeg/Saesneg mewn sgysiau a thrafodaethau dosbarth.</p>			
<p>12. Sicrhau bod:</p> <p>i) y Siarter Iaith yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd</p> <p>ii) arfer dda ar weithredu'r Siarter Iaith a chefnogi ac annog defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn modd adeiladol yn cael ei rannu rhwng ysgolion</p> <p>iii) gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r we trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi un o amcanion y Siarter Iaith. Dylai ysgolion wneud defnydd mwy helaeth o'r gwefannau, deunyddiau ac adnoddau ar-lein Cymraeg. Dylid cefnogi'r ysgolion i gyflawni hyn, lle bo'n briodol.</p>	<p>Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc</p>	<p>Cyngor Gwynedd (Adran Addysg / Hunaniaith)</p>	<p>A) Y Cyngor yn monitro'n rheolaidd gweithrediad y Siarter Iaith yn ysgolion cynradd y sir, ac yn rhoi cefnogaeth i'r ysgolion.</p> <p>B) Y Cyngor a'r ysgolion yn creu cyfleoedd.</p> <p>C) Y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i'r ysgolion i alluogi disgyblion i wneud mwy o ddefnydd o'r gwefannau ac adnoddau ar-lein Cymraeg.</p>
<p>13. Mae rhai o ddarganfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu yn ymddangos yn adroddiad Trywydd ac argymhellir bod y Cyngor a'r Ysgolion yn gweithredu ar yr argymhellion yn yr</p>	<p>Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc</p>	<p>Cyngor Gwynedd (Adran Addysg / Hamdden / Gwasanaeth Ieuenctid / Hunaniaith)</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithredu i ymateb i argymhellion adroddiad Trywydd.</p>

adroddiad.			
<p>14. Dylai'r ysgolion gynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am:</p> <p>i.) y Polisi Iaith ii.) y Siarter Iaith iii.) arferion iaith yr ysgol</p> <p>gan sicrhau eu perchnogaeth hwythau ar y polisi. Dylai pob ysgol sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg.</p>	Cynnwys disgyblion	Ysgolion Cynradd /Uwchradd	<p>A) Y disgyblion yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau am y Polisi Iaith, y Siarter Iaith ac arferion iaith yr ysgol.</p> <p>B) Wedi sefydlu trefn i sicrhau perchnogaeth y disgyblion ar y Polisi.</p> <p>C) Wedi sefydlu cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg.</p>
<p>15. Er mwyn cadw myfyrwyr sydd yn ceisio am yr ail radd yng Nghymru dylai'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau lobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd hefyd fel sydd yn digwydd yn Lloegr.</p>	Grant Myfyrwyr		<p>A) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi lobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd.</p>
<p>16. Dylid hyrwyddo a marchnata manteision dwyieithrwydd mewn cydweithrediad gyda phob ysgol ar draws y sir, gyda'r ysgolion hefyd yn marchnata'r manteision rheiny ar eu gwefan, ymysg rhieni a disgyblion.</p>	Manteision dwyieithrwydd		<p>A) Y Cyngor wedi cynnal adolygiad i adnabod cyfleoedd i farchnata manteision dwyieithrwydd.</p> <p>B) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i fonitro bod pob ysgol yn y sir yn marchnata'r manteision hynny ar eu gwefan, ac ymysg rhieni a disgyblion.</p>
<p>17. Dylai'r Cyngor ddathlu llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir (bod</p>	Manteision dwyieithrwydd		<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i ddathlu</p>

canlyniadau profion yn y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd) a sicrhau bod yr holl ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am y llwyddiannau hynny ar wefan yr ysgol.			llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir yn y dulliau diweddaraf poblogaidd. B) Yr Ysgolion wedi gosod y llwyddiannau ar wefan yr ysgol.
18. Er mwyn cefnogi disgyblion o gartrefi digymraeg i arddel y Gymraeg, dylai ysgolion a'r Cyngor ddatblygu dulliau (megis sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith, sgysiau gyda darpar ddisgyblion/rhieni ayyb) i sefydlu agweddau sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg a dwyieithrwydd. Dylid sicrhau bod arferion da sy'n bodoli eisoes yn cael eu rhannu.	Manteision dwyieithrwydd		A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen o sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith. B) Yr Ysgolion wedi sefydlu trefn i gynnal sgysiau gyda darpar ddisgyblion / rhieni. C) Y Cyngor wedi rhannu arferion da gyda'r holl ysgolion ar draws y sir.
19. Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor: gryfhau'r drefn o sefydlu gofynion ieithyddol swyddi mewn ysgolion wrth benodi staff newydd.	Trefniadau Penodi Staff	Adran Addysg	A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn gadarn ar gyfer penodi staff newydd.
20. Dylid sicrhau fod pob ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r Canolfannau Iaith, gan sicrhau atebolrwydd pob ysgol dros weithredu'r pecynnau ôl-ofal.	Canolfannau Iaith / Monitro ac atebolrwydd	Ysgolion Cynradd / Uwchradd	A) Y Cyngor yn monitro defnydd o'r Canolfannau Iaith a gweithrediad y pecynnau ôl-ofal yn rheolaidd.
21. Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu Canolfan Iaith i Fangor er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi Iaith.	Canolfannau Iaith	Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru	A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu Canolfan Iaith benodol ar gyfer dalgylch Bangor.

<p>22. Sicrhau bod arfer dda yn cael ei rannu rhwng y Canolfannau laith a'r ysgolion.</p>	<p>Canolfannau laith</p>	<p>Canolfannau laith / Ysgolion Cynradd / Uwchradd</p>	<p>A) Y Cyngor a'r Canolfannau laith yn rhannu arfer dda gyda'r holl ysgolion yn rheolaidd.</p>
<p>23. Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu darpariaeth addysg drochi benodol ar gyfer Ysgol Ardudwy (ac ysgolion a leolir mewn dalgyldchoedd demograffig cyffelyb) er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi laith.</p>	<p>Addysg drochi</p>	<p>Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru</p>	<p>A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu darpariaeth addysg drochi yn Ysgol Ardudwy (ac eraill).</p>
<p>24. Dylai'r Cyngor drafod gyda Phrifysgol Bangor, y posibilrwydd o osod safon benodol i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a safon i ddatblygu sgiliau dwyieithog ar gyfer darpar athrawon fel rhan o'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC).</p>	<p>Prifysgol Bangor</p>		<p>A) Y Cyngor wedi trafod ac wedi dod i gytundeb gyda Phrifysgol Bangor.</p>

9. Adrodd yn ôl

- 9.1 Mae aelodau'r ymchwiliad craffu yn gwerthfawrogi mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu ond maent yn awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad ar ei ymateb i'r argymhellion yn ei gyfarfod nesaf gydag adroddiad cynnydd ymhen 6 mis.
- 9.2 Cytunwyd i gyflwyno'r adroddiad gerbron y Pwyllgor laith yn dilyn y Pwyllgor Craffu

Cydnabyddiaeth

Dymunwn ddiolch i'r bobl ganlynol am roi tystiolaeth, gwybodaeth werthfawr a'u cydweithrediad parod:

Dewi Jones, Pennaeth Addysg

Uned Iaith, Cyngor Gwynedd

Gwynedd Ni

Penaethiaid Dalgylch Bangor

Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Ardudwy, Botwnnog, Friars a Tryfan.

Penaethiaid Ysgol Gynradd Nefyn, Tan y Castell, Dyffryn Ardudwy a Thalsarnau, Cae Top, a Hirael.

Penaethiaid Cynradd Dalgylch Botwnnog

Penaethiaid Canolfannau Iaith Sector Cynradd ac Uwchradd

Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith Ysgolion Cynradd

Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith Ysgolion Uwchradd

Darlithwyr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor

Bydd yr ymchwiliad yn:

- i. manylu ar weithrediad Polisi Iaith yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.
- ii. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisiau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.
- iii. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg*" ymhob ysgol.
- iv. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*"

Mae'r Pennaeth Addysg wedi dweud wrthym fod disgwyl i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu polisi iaith yr ysgol yn rheolaidd. Pwysleisiodd mai cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y polisi iaith. Nodwyd bod 5 carfan o blant o fewn gweithrediad y polisi a'r nod ydoedd cael pob plentyn yng ngharfan A - disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cwestiynau ar gyfer Pennaethiaid Ysgolion Uwchradd

1. Diffiniwch eich ysgol yn ieithyddol
2. Eglurwch y rhwystrau i wella diffiniad yr ysgol yn ieithyddol
 - a. O adnabod y rhwystrau, sut gall yr awdurdod eich cefnogi chi, yr ysgol a'r gymuned?
3. Polisi'r Ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol
 - i. Eglurwch sut yr ydych wedi rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn y Cynllun Datblygu Ysgol?
 - ii. Eglurwch pa mor aml ydych yn adolygu polisi iaith yr ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol?
 - iii. Eglurwch i ni sut ydych yn mynd ati i adolygu polisi iaith yr ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol, gan egluro'r gwaith cefndir ar gyfer yr adolygiadau.
 - iv. Eglurwch pwy sydd yn adolygu polisi iaith yr ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol?
 - v. Eglurwch sut mae'r gwahanol bobl yn cymryd rhan yn yr adolygiadau hyn?
4. Rolau
 - a. Eglurwch sut ydych yn sicrhau bod gan y canlynol rolau clir?
 - i. llywodraethwyr,
 - ii. athrawon,
 - iii. rhieni a
 - iv. staff
 - b. Beth yw'r dystiolaeth bod rolau'r uchod yn glir iddynt yng nghyd-destun y Polisi Iaith?

5. Atebolrwydd

Eglurwch sut ydych chi'n sicrhau bod pob haen o gymuned yr ysgol yn atebol wrth hyrwyddo agwedd iach / cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg?

- i. Disgyblion
- ii. Rhieni
- iii. Llywodraethwyr
- iv. Athrawon

6. Gweithlu

- a. Dywedwch wrthym faint o weithlu'r ysgol sydd wedi derbyn hyfforddiant 'Ymwybyddiaeth Iaith'?
- b. Dywedwch wrthym faint o staff ategol yr ysgol sydd wedi derbyn hyfforddiant i wella sgiliau iaith?
- c. Ydi'r gweithlu wedi derbyn hyfforddiant er sicrhau eu dealltwriaeth o fuddiannau caffael iaith a dulliau addas a sensitif o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc?

7. Hyrwyddo Defnydd o'r Gymraeg

- a. Eglurwch pa ddulliau hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ydych yn defnyddio?
 - i. Yn lle?
 - ii. Efo pa grwpiau o bobl?
 - iii. A wnewch rannu tystiolaeth o hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg efo ni?
- b. Eglurwch eich cynlluniau gwobrwyo defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol?

8. Dulliau Dysgu

- a. Beth ydi'r dulliau dysgu dwyieithog sy'n cael ei defnyddio yn yr ysgol pan mae'r dosbarth yn ddwyieithog?
- b. Beth yw'r dulliau dysgu dwyieithog sy'n cael ei defnyddio ar gyfer pynciau craidd?
- c. Pa hyfforddiant mae'r staff yn derbyn i ddysgu'n ddwyieithog?
- ch. Eglurwch beth yw'r rhwystrau?

9. Cyngor yr Ysgol

- a. Pa mor aml mae Cyngor yr Ysgol yn cyfarfod?
- b. Ydi Cyngor yr Ysgol yn cynnal ei drafodaethau drwy'r Gymraeg?
- c. Sut mae Cyngor yr Ysgol yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg?
- ch. Ydi'r Cyngor wedi sefydlu Pencampwyr Iaith/ neu 'buddy' ar y buarth?
- d. Ydi'r Cyngor wedi gwahodd siaradwyr gwadd Cymraeg a Chymreig i ymweld â'r disgyblion?
- dd. A wnewch rannu tystiolaeth efo ni?

10. Cydlynwyr Iaith

- a. Eglurwch rôl a chyfrifoldeb y cyd-gysylltwyr iaith.
- b. Eglurwch yr effaith a dylanwad mae'r cyd-gysylltwyr iaith yn ei gael ar y Gymraeg yn yr ysgol?
- c. Yn eich tyb chi, a oes rôl bellach iddynt?

11. Hwyrddyfodiad

- a. Eglurwch pa gamau mae'r ysgol yn cymryd i ddelio efo hwyrddyfodiaid?
- b. Dros y 3 blynedd diwethaf, faint o ddisgyblion uwchradd sydd wedi mynychu Canolfan Iaith Eifionydd?
- c. A oes enghreifftiau, bod rhieni wedi gwrthod i'w plentyn fynd i'r Ganolfan Iaith?

12. Pynciau ac Arholiadau

- a. Eglurwch pa bynciau craidd a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog?
 - i. Faint o'r disgyblion sydd yn sefyll arholiadau craidd yn y Gymraeg?
- b. Eglurwch pa bynciau eraill a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog?
 - i. Faint o'r disgyblion sydd yn sefyll arholiadau eraill yn y Gymraeg?
- c. Pa adnoddau sydd ar gael i ddisgyblion astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, oes yna ddiffyg?

13. Cyraeddiadau a pherfformiad mewn Cymraeg

- a. Cyfnod Allweddol 3 (11-14oed)
 - i. Beth yw nifer y disgyblion CA3 sy'n cael asesiad athro yn y Gymraeg Iaith Cyntaf?
 - ii. Beth yw'r canran o'r disgyblion sy'n cael asesiad athro yn y Gymraeg Iaith Cyntaf?
 - iii. Beth yw'r canran sy'n cyrraedd y lefel disgwylidig?
- b. Cyfnod Allweddol 4
 - i. Beth yw nifer y disgyblion sy'n sefyll asesiad allanol Cymraeg Iaith Cyntaf yn CA4?
 - ii. Beth yw'r canran o'r disgyblion sy'n cael asesiad allanol Cymraeg Iaith Cyntaf?
 - iii. Beth yw'r canran sy'n cyrraedd y lefel disgwylidig?
- c. Pan fo angen gwella perfformiad disgybl - beth yw'r drefn ar gyfer gweithio efo'r disgybl, rhieni, staff a llywodraethwyr?

14. Cyraeddiadau a pherfformiad mewn Cymraeg fel ail-iaith

- a. Disgyblion Blwyddyn 9
 - i. Beth yw nifer y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael asesiad athro yn y Gymraeg fel ail-iaith?
 - ii. Beth yw'r canran o'r disgyblion sy'n cael asesiad athro yn y Gymraeg fel ail-iaith?
 - iii. Beth yw'r canran sy'n cyrraedd y lefel disgwylidig?
- b. Disgyblion Blwyddyn 11 sy'n sefyll asesiad allanol Cymraeg fel ail-iaith
 - i. Beth yw nifer y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cael asesiad allanol Cymraeg fel ail-iaith?
 - ii. Beth yw'r canran o'r disgyblion sy'n cael asesiad allanol Cymraeg fel ail-iaith?
 - iii. Beth yw'r canran sy'n cyrraedd y lefel disgwylidig?

15. Y Fagloriaeth Gymreig

- a. Faint o fyfyrwyr sydd yn ymgeisio ac yn llwyddo i ennill dyfarniad yn y cymhwyster?
- b. Oes yna enghraifft o fyfyrwyr sy'n dilyn y Fagloriaeth Gymreig sy'n hyrwyddo'r Gymraeg?
- c. Oes unrhyw anawsterau i ysgol / myfyrwyr o ddilyn y Fagloriaeth Gymreig?

Bydd yr ymchwiliad yn:

- i. manylu ar weithrediad Polisi Iaith yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.
- ii. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisiau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.
- iii. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg*" ymhob ysgol.
- iv. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*"

Mae Canllawiau Gweithredu'r Polisi Iaith yn nodi:- "Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu Polisi Iaith yr ysgol yn rheolaidd. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; mae disgwyl i'r Pennaeth ddarparu arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nôd y polisi ac i sicrhau bod ymdrechion athrawon dosbarth yn cael eu hatgyfnerthu drwy sicrhau bod ethos Gymraeg a Chymreig priodol yn yr ysgol."

Mae 5 carfan o blant o fewn gweithrediad y polisi a'r nod ydi cael pob plentyn yng ngharfan A - disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfocrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Holiadur ar gyfer Pennaethiaid Ysgolion Cynradd

1. Diffiniwch eich ysgol yn ieithyddol
2. Polisi Iaith yr Ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol
 - i. Pwy sydd yn gyfrifol am Polisi Iaith yr Ysgol?
 - ii. Pwy sydd yn gyfrifol am adolygu'r polisi a pha mor aml?
 - iii. Sut ydych yn cynnwys budd-ddeiliaid yn y gwaith adolygu'r polisi (staff, Llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion)?
 - iv. Ydi'r broses recriwtio yn gweithredu'n unol â gofynion y Polisi Iaith?
 - v. I ba raddau mae'r ysgol yn cyflawni gofynion y Polisi Iaith o ran cyrhaeddiad disgybl gan sicrhau bod pob disgybl yn hyfedr ddwyieithog erbyn 11oed?
 - vi. Eglurwch sut yr ydych wedi rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn y Cynllun Datblygu Ysgol?
 - vii. Sut ydych yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer disgyblion sydd â llai o gyfleoedd/gefnidir Cymreig?
 - viii. Eglurwch y rhwystrau i wella diffiniad yr ysgol yn ieithyddol
 - ix. O adnabod y rhwystrau, sut gall yr awdurdod eich cefnogi chi, yr ysgol a'r gymuned?

3. Atebolrwydd

- a. Eglurwch sut ydych chi'n sicrhau bod pob haen o gymuned yr ysgol yn atebol wrth hyrwyddo agwedd iach / cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg?
 - i. Disgyblion
 - ii. Rhieni
 - iii. Llywodraethwyr
 - iv. Athrawon
- b. Eglurwch pa mor aml ydych yn monitro a pha gamau gweithredu yr ydych yn cymryd i wella'r sefyllfa?
- c. A oes Pencampwr Cymraeg ar y Corff Llywodraethwyr?
- ch. Mae rhaglen Anwytho Llywodraethwyr Newydd yn bodoli yng Ngwynedd sydd yn cynnwys nifer o gyrsiau hyfforddi. Eglurwch sut ydych yn hyrwyddo ac yn annog y Llywodraethwyr i fynychu'r hyfforddiant?
- d. Ydych chi'n gwybod faint o Lywodraethwyr yr ysgol sydd wedi'u hyfforddi gan y Cyngor a phwy ydynt?

4. Gweithlu

- a. Dywedwch wrthym faint o weithlu'r ysgol sydd wedi derbyn hyfforddiant 'Ymwybyddiaeth Iaith'?
- b. Dywedwch wrthym faint o staff ategol yr ysgol sydd wedi derbyn hyfforddiant i wella sgiliau iaith?
- c. Ydi'r gweithlu wedi derbyn hyfforddiant er sicrhau eu dealltwriaeth o fuddiannau caffael iaith a dulliau addas a sensitif o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc?
- ch. A oes gweithiwr ar fuarth yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant 'Chwaraeon Buarth' i hwyluso defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg?

5. Hyrwyddo Defnydd o'r Gymraeg

- a. Eglurwch pa ddulliau hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ydych yn defnyddio?
 - i. Yn lle?
 - ii. Efo pa grwpiau o bobl?
 - iii. A wnewch rannu tystiolaeth o hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg efo ni?
- b. Eglurwch eich cynlluniau gwobrwyo defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol?

6. Dulliau Dysgu

- a. Beth yw'r cyfrwng dysgu yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnod Allweddol 2?
